


Cynllun Datblygu Lleol

Bro Morgannwg


2011 - 2026

Cynllun Datblygu Lleol



Adroddiad Monitro Blynyddol 1^{af}
Ebrill 2018 i Mawrth 2019

Hydref 2019



CYNLLUN DATBLYGU LLEOL BRO MORGANNWG 2011 – 2026

ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 1^{AF}

HYDREF 2019

CYFNOD MONITRO 1AF EBRILL 2018 I 31AIN MAWRTH 2019.

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fformatau eraill ar gais e.e. ffont mwy.

TABL CYNNWYS

| | | |
|------|---|-----|
| 1. | Crynodeb Gweithredol | 1 |
| 1.2. | CANFYDDIADAU ALLWEDDOL Y BROSES MONITRO BLYNYDDOL GYNTAF (1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019) | 1 |
| 2. | Cyflwyniad | 9 |
| 2.2. | Y Gofyniad i Fonitro'r CDLI | 10 |
| 2.3. | Fframwaith Monitro CDLI Bro Morgannwg | 11 |
| 2.4. | Newidiadau cyd-destunol | 13 |
| 2.5. | Newidiadau deddfwriaethol | 13 |
| 2.6. | Polisi Cynllunio Cenedlaethol..... | 14 |
| 2.7. | Nodiadau Cyngor Technegol (TANs) | 15 |
| 3. | Cyd-destun rhanbarthol..... | 17 |
| 3.2. | Cyd-destun lleol | 20 |
| 3.3. | Dylanwadau cenedlaethol | 23 |
| 3.4. | Crynodeb cyd-destunol | 28 |
| 4. | Cynllun Datblygu Lleol a Fframwaith Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd | 29 |
| 4.2. | Graddio Goleuadau Traffig o Berfformiad Polisi | 30 |
| 4.3. | Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd /Asesiad Amgylcheddol Strategol..... | 31 |
| 5. | Fframwaith Monitro Cynllun Datblygu Lleol - Dadansoddiad Polisi | 32 |
| 1. | Cymunedau Cynaliadwy | 32 |
| 2. | Newid Yn Yr Hinsawdd | 38 |
| 3. | Trafnidiaeth | 40 |
| 4. | Amgylchedd Adeiledig A Naturiol | 46 |
| 5. | Cyfleusterau Cymunedol | 56 |
| 6. | Manwerthu | 63 |
| 7. | Tai | 71 |
| 8. | Economi | 81 |
| 9. | Twristiaeth..... | 86 |
| 10. | Adnoddau Naturiol | 87 |
| 6. | Fframwaith Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd - Dadansoddiad Amcan | 98 |
| 6.1. | Y gofyniad i fonitro AoG | 98 |
| 6.2. | Methodoleg Monitro AoG | 98 |
| 6.3. | Monitro Arfarniad O Gynaliadwyedd CDLI | 100 |
| 1. | Tai | 100 |
| 2. | Cyfleusterau lleol | 102 |
| 3. | Mynediad i bawb | 107 |
| 4. | Amddifadedd..... | 108 |

| | | |
|------|---|-----|
| 5. | Ysbryd cymunedol | 111 |
| 6. | Newid yn yr hinsawdd | 115 |
| 7. | Gwastraff | 121 |
| 8. | Defnydd tir | 122 |
| 9. | Asedau Amgylcheddol | 124 |
| 10. | Ansawdd datblygiad newydd | 135 |
| 11. | Treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol | 136 |
| 12. | Trafnidiaeth a hygyrchedd | 137 |
| 13. | Cyflogaeth | 143 |
| 14. | Manwerthu | 145 |
| 15. | Twristiaeth..... | 147 |
| 7. | Casgliadau ac argymhellion | 152 |
| 7.1. | Casgliadau Fframwaith Monitro'r CDLI..... | 152 |
| 7.2. | Casgliadau Monitro'r AoG | 155 |
| 7.3. | Argymhellion | 155 |

1. CRYNODEB GWEITHREDOL

- 1.1.1. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011 - 2026 (CDLI) ar 28^{ain} Mehefin 2017. Mae adran 76 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol fonitro gweithrediad eu CDLIau mabwysiedig trwy baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB).
- 1.1.2. Ymgymerir â'r AMB yn unol â'r Fframwaith Monitro a gynhwysir yn y CDLI mabwysiedig ar dudalen 129 (adran 9). Mae fframwaith monitro'r CDLI yn cynnwys set o ddangosyddion a thargedau sy'n cael eu gosod yn erbyn pwyntiau sbarduno i nodi os nad yw un rhan o'r cynllun yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Mae pwyntiau sbarduno wedi'u cynnwys i asesu'r lefel y mae Polisi wedi gwro oddi wrth y targed monitro i'r fath raddau fel y gallai nodi bod y Polisi yn methu â chael ei weithredu neu fod angen ei newid. Mae llawer o'r dangosyddion yn cynnwys targedau bob dwy flynedd neu'n cyfeirio at ddyddiadau targed priodol ar gyfer datblygiadau / cyfleusterau penodol i asesu perfformiad y Cynllun.
- 1.1.3. Yr AMB yw'r prif fecanwaith ar gyfer adolygu perthnasedd a llwyddiant y CDLI ac ar gyfer sefydlu a oes angen unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau i'r Cynllun. Prif swyddogaeth yr AMB yw dangos i ba raddau y mae strategaeth ac amcanion y CDLI yn cael eu cyflawni a p'un yw polisiâu'r Cynllun yn gweithredu'n effeithiol. Mae cynhyrchu AMB hefyd yn galluogi'r Cyngor i asesu'r effaith y mae'r CDLI yn ei chael ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr awdurdod ac yn helpu i nodi unrhyw newidiadau cyd-destunol sylweddol a allai ddylanwadu ar weithrediad neu adolygiad y Cynllun.
- 1.1.4. Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (CDLI) (Cymru) 2005 a Llawlyfr 2 y CDLI (Awst 2015) yn darparu arweiniad ar gynnwys yr AMB a phryd y dylid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae Llawlyfr y CDLI yn nodi y dylai'r AMR cyntaf gael ei gyflwyno erbyn 31^{ain} Hydref yn y flwyddyn ganlynol yn dilyn mabwysiadu'r CDLI cyntaf, oni bai bod llai na 12 mis wedi mynd heibio ers mabwysiadu, ac os felly dylid ei gyflwyno erbyn 31^{ain} Hydref y flwyddyn ddilynol. Yr AMB hwn felly yw'r AMB cyntaf a baratowyd gan y Cyngor ac mae'n seiliedig i raddau helaeth ar ddata a gasglwyd dros y cyfnod 1^{af} Ebrill 2018 i 31^{ain} Mawrth 2019. Bydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y terfyn amser ar 31^{ain} Hydref 2019.

1.2. CANFYDDIADAU ALLWEDDOL Y BROSES MONITRO BLYNYDDOL GYNTAF (1AF EBRILL 2018 I 31AIN MAWRTH 2019)

DYLANWADAU CYD-DESTUNOL

- 1.2.1. Mae Adran 3 o'r AMB yn darparu gwybodaeth am yr amrywiol newidiadau cyd-destunol sydd wedi digwydd ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu ym mis Mehefin 2017, ac a allai fod wedi effeithio ar ei nodau a'i amcanion. Mae hyn yn cynnwys

deddfwriaeth genedlaethol newydd/diwygiedig a/neu gynlluniau, polisiâu a strategaethau perthnasol ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol a allai gael effaith ar gyflawni'r strategaeth CDLI. Yn ogystal, mae'r adran hefyd yn darparu trosolwg o'r sefyllfa economaidd gyffredinol dros y cyfnod monitro ynghyd â gwybodaeth am gynnydd ar Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) allweddol. Lle y bo'n briodol, crynhowyd unrhyw oblygiadau posibl i'r CDLI.

- 1.2.2. Er y gallai rhai o'r ffactorau allanol a nodwyd fod â goblygiadau i'r CDLI yn y tymor hwy; ar adeg paratoi'r AMB, ni ystyrir bod yr un ohonynt wedi effeithio ar y CDLI i'r fath raddau fel ei fod yn haeddu adolygiad ar hyn o bryd. Felly bydd effaith y ffactorau a nodwyd ac unrhyw newidiadau yn y dyfodol ar nodau ac amcanion y CDLI yn cael eu hasesu a'u hystyried mewn AMB yn y dyfodol. Darperir gwybodaeth gyd-destunol sy'n benodol i faes polisi CDLI penodol yn yr adran dadansoddi polisi perthnasol er hwylustod, ac felly ni chaiff ei hailadrodd yma.

MONITRO'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL – DADANSODDIAD POLISI

- 1.2.3. Mae Adran 5 yn archwilio sut mae polisiâu strategol y CDLI a'i bolisiâu rheoli twf a rheoli datblygu cysylltiedig yn perfformio yn erbyn targedau monitro'r Cynllun. Hefyd, mae'n edrych ar p'un a yw strategaeth ac amcanion y CDLI yn cael eu cyflawni. Defnyddiwyd system graddio goleuadau traffig fel cymorth gweledol i fonitro effeithiolrwydd polisiâu'r Cynllun ac i ddarparu trosolwg cyfeirio cyflym o berfformiad polisi, fel a ganlyn:

| |
|---|
| Parhau i Fonitro (Gwyrdd) |
| Lle mae dangosyddion yn awgrymu bod y Polisiâu CDLI yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac nad oes achos dros eu hadolygu. |
| Angen Hyfforddiant (Glas) |
| Lle mae dangosyddion yn awgrymu nad yw Polisiâu CDLI yn cael eu gweithredu yn ôl y bwriad a bod angen hyfforddiant pellach i swyddogion neu aelodau. |
| Angen Canllawiau Cynllunio Atodol a Briffiau Datblygu (Porffor) |
| Gall dangosyddion awgrymu bod angen darparu arweiniad pellach yn ychwanegol at yr hyn a nodwyd eisoes yn y Cynllun. Yn ychwanegol, os nad oes safleoedd yn dod ymlaen fel y rhagwelwyd, bydd y Cyngor yn ymgysylltu'n weithredol â datblygwyr/ tîffeddiawyr i gyflwyno Briffiau Datblygu ar safleoedd allweddol i helpu dechrau'r broses ddatblygu. |
| Ymchwil Polisi (Melyn) |
| Lle mae dangosyddion yn awgrymu nad yw'r Polisiâu CDLI mor effeithiol ag y dylent fod, mae angen ymchwilio ac archwilio pellach. Gall hyn hefyd gynnwys defnyddio dangosyddion cyd-destunol a chymariaethau ag awdurdodau lleol eraill ac efallai y bydd angen ystadegau cenedlaethol lle bo hynny'n briodol. |
| Adolygiad Polisi (Oren) |

Lle mae dangosyddion yn awgrymu bod Polisiâu'r CDLI yn methu â gweithredu'r strategaeth, mae angen adolygiad ffurfiol o'r Polisi. Efallai y bydd angen ymchwilio ac archwilio pellach cyn cadarnhau penderfyniad i adolygu'n ffurfiol.

Adolygiad Cynllun (Coch)

Lle mae dangosyddion yn awgrymu bod Polisiâu'r CDLI yn methu, a bod angen adolygiad ffurfiol o'r Cynllun. Bydd angen ymchwilio i'r opsiwn hwn i adolygu'r Cynllun yn llawn a'i gynnal yn dilyn ystyriaeth ddifrifol.

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

1.2.4. Yn gyffredinol, mae canfyddiadau allweddol yr AMB cyntaf yn gadarnhaol. Mae pob un o'r 6 dangosydd 'craidd' yn wyrdd ac mae mwyafrif y dangosyddion 'lleol' yn wyrdd, sy'n dangos bod y polisiau CDLI perthnasol yn cyflawni eu hamcanion ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae angen ymchwil/ ymchwilio pellach i rai dangosyddion (gweler 7.5 ac 8.3) er mwyn sefydlu pam nad yw polisiau'r CDLI mor effeithiol ag y dylent fod. Mae CCA newydd yn cael ei baratoi ar hyn o bryd mewn perthynas â dangosyddion 6.2, 6.3, ac 8.4 ar fanwerthu a chyflogaeth, a fydd yn darparu eglurder a manylion ychwanegol i'r polisiau CDLI perthnasol. Argymhellir hyfforddiant i aelodau mewn perthynas â dangosydd 7.6. Dylid nodi bod y celloedd gwyn yn y tabl isod yn nodi bod y targed monitro y tu allan i amserlen yr AMB cyntaf ac y bydd yn cael ei asesu mewn AMB'au yn y dyfodol. Rhannwyd rhai o'r celloedd perfformiad i adlewyrchu nifer y targedau yn y dangosydd. Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r canfyddiadau:

| Amcan | Rhif cyf. | Dangosydd | Targed/ Perfformiad |
|--------------------------|-----------|--|------------------------|
| 1 – Cymunedau cynaliadwy | 1.1 | CRAIDD: Cyfanswm yr unedau o dai y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu fel canran o'r ddarpariaeth tai ar y cyfan | |
| 1 – Cymunedau cynaliadwy | 1.2 | LLEOL: Cyfanswm yr unedau o dai a gwblhawyd ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu dan MG2 | |
| 1 – Cymunedau cynaliadwy | 1.3 | CRAIDD: Tir cyflogaeth y rhoddwyd caniatâd ar ei gyfer (ha) ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu fel canran o'r holl ddyraniadau cyflogaeth. | |
| 2- Newid yn yr hinsawdd | 2.1 | LLEOL: Faint o Ddatblygu (yn ôl y categorïau yn TAN15) y rhoddwyd caniatâd ar ei gyfer mewn ardaloedd gorlifdir C1 nad ydynt yn bodloni'r holl brofion yn TAN15. | |
| 2- Newid yn yr hinsawdd | 2.2 | LLEOL: Faint o Ddatblygu (yn ôl y categorïau yn TAN15) y rhoddwyd caniatâd ar ei gyfer mewn ardaloedd gorlifdir C2 nad ydynt yn bodloni'r holl brofion yn TAN15. | |
| 2- Newid yn yr hinsawdd | 2.3 | LLEOL: Cyfanswm y capasiti allbwn ynni y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer (MW) ar ddatblygiadau ynni adnewyddadwy annibynnol sy'n fwy na 1MW. | |
| 2- Newid yn yr hinsawdd | 2.4 | LLEOL: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas ag Ynni Adnewyddadwy. | |
| 3 – Trafnidiaeth | 3.1 | LLEOL: Nifer y cynlluniau trafndiaeth lleol a gyflawnwyd i roi cymorth i gyflawni cynlluniau a nodir ym Mholisiau SP7 ac MG16. | |
| 3 - Trafnidiaeth | 3.2 | LLEOL: Nifer y ceisiadau cynllunio mawr y bydd cynllun teithio'n cyd-fynd â hwy, uwchlaw'r trothwyon perthnasol ar gyfer Asesiad Trafnidiaeth a nodir yn TAN18 (gweler Atodiad D). | |
| 3 - Trafnidiaeth | 3.3 | LLEOL: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â Chynlluniau Teithio. | |

| | | | | | | |
|------------------------------------|------|--|--|--|--|--|
| 3 - Trafnidiaeth | 3.4 | LLEOL: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â Safonau Parcio. | | | | |
| 4 –Amgylchedd Adeiledig a Naturiol | 4.1 | LLEOL: Nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd lle'r oedd gwrthwynebiad gan Cadw neu Gyfoeth Naturiol Cymru. | | | | |
| 4 –Amgylchedd Adeiledig a Naturiol | 4.2 | LLEOL: Nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd mewn Ardal Tirwedd Arbennig heb i hynny fod yn unol â Pholisi MG17. | | | | |
| 4 –Amgylchedd Adeiledig a Naturiol | 4.3 | LLEOL: Nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd mewn lletem las yn groes i Bolisi MG18. | | | | |
| 4 –Amgylchedd Adeiledig a Naturiol | 4.4 | LLEOL: Nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd yn Arfordir Treftadaeth Morgannwg yn groes i Bolisi MG27. | | | | |
| 4 –Amgylchedd Adeiledig a Naturiol | 4.5 | LLEOL: Nifer y ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo a fyddai'n cael effaith anffafriol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). | | | | |
| 4 –Amgylchedd Adeiledig a Naturiol | 4.6 | LLEOL: Nifer y ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo a fyddai'n cael effaith anffafriol ar Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur. | | | | |
| 4 –Amgylchedd Adeiledig a Naturiol | 4.7 | LLEOL: Faint o fannau agored cyhoeddus a enillwyd trwy ddatblygu. (Ha). | | | | |
| 4 –Amgylchedd Adeiledig a Naturiol | 4.8 | LLEOL: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â Chanllawiau Dylunio i Ddeiliaid Tai. | | | | |
| 4 –Amgylchedd Adeiledig a Naturiol | 4.9 | LLEOL: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â Bioamrywiaeth a Datblygu. | | | | |
| 4 –Amgylchedd Adeiledig a Naturiol | 4.10 | LLEOL: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas ag Addasu ac Adnewyddu Adeiladau Gwledig. | | | | |
| 4 –Amgylchedd Adeiledig a Naturiol | 4.11 | LLEOL: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â Dylunio yn y Dirwedd. | | | | |
| 4 –Amgylchedd Adeiledig a Naturiol | 4.12 | LLEOL Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â Chelf Gyhoeddus. | | | | |
| 4 –Amgylchedd Adeiledig a Naturiol | 4.13 | LLEOL: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â Choed a Datblygu. | | | | |
| 5- Cyfleusterau cymunedol | 5.1 | LLEOL: Cyfleusterau addysg sydd wedi'u nodi ym Mholisi MG6, a sicrhawyd trwy A106/ Ardoll Seilwaith Cymunedol mewn cydweithrediad â datblygiad newydd. | | | | |
| 5- Cyfleusterau cymunedol | 5.2 | LLEOL: Cyfleusterau cymunedol sydd wedi'u nodi ym Mholisi MG7, a sicrhawyd trwy A106/ Ardoll Seilwaith Cymunedol mewn cydweithrediad â datblygiad newydd. | | | | |
| 5- Cyfleusterau cymunedol | 5.3 | LLEOL: Mannau agored cyhoeddus sydd wedi'u nodi ym Mholisi MG7, a sicrhawyd trwy A106/ Ardoll Seilwaith Cymunedol mewn cydweithrediad â datblygiad newydd. | | | | |

| | | | | | | | |
|---------------------------|----------|---|--|--|--|--|--|
| 5- Cyfleusterau cymunedol | 5.4 | LLEOL: Nifer o gyfleusterau cymunedol a gollwyd trwy ddatblygiad. | | | | | |
| 5- Cyfleusterau cymunedol | 5.5 | LLEOL: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol yn gysylltiedig â Rhwymedigaethau Cynllunio. | | | | | |
| 6 - Manwerthu | 6.1 (i) | CRAIDD: Faint o ddatblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden (metr sgwâr) a ganiatawyd o fewn ffiniau sefydledig canol trefi a chanolfannau ardal. | | | | | |
| 6 - Manwerthu | 6.1 (ii) | CRAIDD: Faint o ddatblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden (metr sgwâr) a ganiatawyd tu allan i ffiniau sefydledig canol trefi a chanolfannau ardal. | | | | | |
| 6 - Manwerthu | 6.2 | LLEOL: Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd yn flynyddol ar gyfer defnyddiau heblaw A1 yn ffryntiadau cynradd ac eilaidd y canolfannau manwerthu canol tref ac ardal. | | | | | |
| 6 - Manwerthu | 6.3 | LLEOL: Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd yn flynyddol ar gyfer defnyddiau heblaw A1 yn ffryntiadau cynradd ac eilaidd y canolfannau manwerthu lleol a chymdogaeth. | | | | | |
| 6 - Manwerthu | 6.4 | LLEOL: Canran yr unedau manwerthu gwag yn y ffryntiadau cynradd ac eilaidd o fewn ffiniau'r canolfannau manwerthu canol tref ac ardal. | | | | | |
| 6 - Manwerthu | 6.5 | LLEOL: Canran yr unedau manwerthu gwag o fewn ffiniau'r canolfannau lleol a chymdogaeth | | | | | |
| 7- Tai | 7.1 | CRAIDD: Cyflenwad o dir ar gyfer tai, wedi'i gymryd o'r Gydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai gyfredol (TAN1). | | | | | |
| 7- Tai | 7.2 | CRAIDD: Nifer yr anheddau fforddiadwy ychwanegol net a adeiladwyd. | | | | | |
| 7- Tai | 7.3 | CRAIDD: Nifer yr anheddau marchnad gyffredinol net a adeiladwyd. | | | | | |
| 7- Tai | 7.4 | LLEOL: Diwallu'r angen byrdymor dynodedig am Lety Sipsiwn a Theithwyr lleol awdurdodedig. | | | | | |
| 7- Tai | 7.5 | LLEOL: Diwallu'r angen hirdymor dynodedig am Lety Sipsiwn a Theithwyr awdurdodedig. | | | | | |
| 7- Tai | 7.6 | LLEOL: Nifer yr anheddau y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer yn flynyddol y tu allan i'r ffiniau aneddiadau dynodedig nad ydynt yn ateb gofynion polisiâu'r CDLI neu bolisi cenedlaethol. | | | | | |
| 7- Tai | 7.7 | LLEOL: Cyfanswm yr anheddau a gwblhawyd ar safleoedd tai strategol fel a nodir ym mholisiau dyrannu safleoedd MG2 ac MG3. | | | | | |
| 7- Tai | 7.8 | LLEOL: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â Thai Fforddiadwy | | | | | |
| 8 - Economi | 8.1 | LLEOL: Cyfanswm y datblygiadau cyflogaeth strategol a ganiatawyd ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu dan Bolisi MG9(ha). | | | | | |
| 8 - Economi | 8.2 | LLEOL: Nifer y swyddi a ragwelir ar safleoedd cyflogaeth strategol sydd wedi cael caniatâd. | | | | | |
| 8 - Economi | 8.3 | LLEOL: Cyfanswm y datblygiadau y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer yn unol â Pholisi MD14 ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu dan Bolisi MG9 (ha). | | | | | |

| | | | |
|------------------------|------|---|---|
| 8 - Economi | 8.4 | LLEOL: Faint o dir cyflogaeth presennol neu ddyraniadau dan Bolisi MG9 a gollwyd i ddefnyddiau heblaw dosbarth B. | |
| 8 - Economi | 8.5 | LLEOL: Mabwysiadu Fframwaith Datblygu Strategol Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd - Sain Tathan fel briff datblygu. | |
| 9- Twristiaeth | 9.1 | LLEOL: Darparu cyfleusterau twristiaeth newydd a gwell a nodir ym Mholisi MG29. | |
| 10 – Adnoddau Naturiol | 10.1 | CRAIDD: Faint o agregau wedi'u hennill o'r tir a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau wedi'i fynegi fel canran o'r capasiti ar y cyfan sy'n ofynnol fel a nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (Gofyniad yn MTAN). | |
| 10 – Adnoddau Naturiol | 10.2 | LLEOL: Faint o ddatblygu parhaol, sy'n diffwrtho fydd yn cael ei ganiatáu mewn ardal diogelu mwynau. | |
| 10 – Adnoddau Naturiol | 10.3 | LLEOL: Faint o ddatblygu a ganiatawyd mewn clustogfa mwynau. | |
| 10 – Adnoddau Naturiol | 10.4 | LLEOL: Faint o dir maes glas a gollwyd oherwydd datblygiad (ha) nad yw wedi'i ddyrannu yn y Cynllun Datblygu neu nad yw'n cwrdd â gofynion Polisiâu perthnasol Cynllun Datblygu Lleol. | |
| 10 – Adnoddau Naturiol | 10.5 | LLEOL: Faint o ddatblygiad Tai (ha) newydd a ganiateir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd ac addasiadau) wedi'i fynegi fel % o'r holl dai a ganiateir. | |
| 10 – Adnoddau Naturiol | 10.6 | LLEOL: Faint o Dir Gorau a Mwyaf Hyblyg a gollir i hapddatblygiadau. | |
| 10 – Adnoddau Naturiol | 10.7 | LLEOL: Dwysedd datblygiadau tai y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer. | |
| 10 – Adnoddau Naturiol | 10.8 | LLEOL: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol yn gysylltiedig â Diogelu mwynau. | |
| 10 – Adnoddau Naturiol | 10.9 | LLEOL: Faint o dir a chyfleusterau i ddarparu ar gyfer gwastraff ym Mro Morgannwg. | Dim Sbardun rhanbarthol wedi'i sefydlu hyd yma. |

MONITRO ARFARNIAD O GYNALIADWYEDD (AOG)

- 1.2.5. Yn ychwanegol at y gofynion i fonitro'r CDLI fel y nodir uchod, rhaid i'r CDLI a'r AMB gydymffurfio â Chyfarwyddebau a Rheoliadau Ewropeaidd perthnasol. Yn hyn o beth, dylai monitro'r CDLI gydymffurfio â'r gofynion ar gyfer monitro perfformiad cynaliadwyedd y CDLI trwy'r broses Aseiad Amgylcheddol Strategol/ Arfarniad o Gynaliadwyedd (AAS/AoG).
- 1.2.6. Mae'r AoG yn helpu i ddangos bod y CDLI yn gadarn trwy sicrhau ei fod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy, ac yn cyfrannu at gyfiawnhad rhesymegol polisiâu. Mae AoG y CDLI yn nodi set o amcanion a dangosyddion effaith sylweddol y bwriedir iddynt fesur effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y CDLI.

- 1.2.7. Mae Adran 6 yr AMB yn archwilio perfformiad y CDLI yn erbyn amcanion monitro'r AoG. Darpara hyn ddatganiad sefyllfa tymor byr ar berfformiad y Cynllun yn erbyn nifer o ddangosyddion cynaliadwyedd ac mae'n darparu llinell sylfaen ar gyfer dadansoddiad cymharol yn y dyfodol.

CASGLIADAU

- 1.2.8. O ystyried mai dim ond ers cyfnod byr y mae'r CDLI wedi'i fabwysiadu a dyma'r AMB cyntaf i gael ei baratoi, cyfyngedig yw effeithiau cyffredinol y Cynllun ac mae unrhyw gasgliadau yn rhagarweiniol yn ystod y cam cynnar hwn o weithredu'r Cynllun. Felly bydd yr AMB hwn yn llinell sylfaen ar gyfer dadansoddiad cymharol yn y dyfodol, lle bydd AMB'au olynol yn gallu tystio i dueddiadau sy'n dod i'r amlwg.
- 1.2.9. Noda'r AMB bod mwyafrif polisiau'r Cynllun yn perfformio'n dda ac yn cyflawni'r targedau a nodir yn Fframwaith Monitro'r CDLI. Er bod ychydig o feysydd lle mae'r AMB wedi nodi bod angen gwaith ac/neu ymchwiliadau pellach, ar y cyfan dangosodd yr AMB bod y CDLI wedi bod yn llwyddiannus i gyflawni ei amcanion datganedig hyd yma, ac nid oes unrhyw dystiolaeth bendant sy'n dod i'r casgliad bod angen adolygiad llawn neu rannol o'r Cynllun yn ystod y cam cynnar hwn o'i weithredu.
- 1.2.10. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r CDLI trwy baratoi AMB'au olynol. Bydd angen monitro yn y dyfodol er mwyn pennu effeithiolrwydd strategaeth a fframwaith polisi'r Cynllun, yn enwedig mewn perthynas â darparu tai, gan gynnwys dyraniadau safleoedd tai strategol, darparu tai fforddiadwy, cynnydd ar safleoedd cyflogaeth strategol/lleol a manwerthu. Mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu'r CDLI ddim hirach na phedair blynedd ar ôl ei fabwysiad cychwynnol, oni bai bod yr AMB yn nodi materion sy'n golygu bod angen adolygiad cynharach.

2. CYFLWYNIAD

- 2.1.1. Mabwysiadwyd CDLI Bro Morgannwg 2011- 2026 yn ffurfiol gan y Cyngor ar 28^{ain} Mehefin 2017, a dyma'r brif ddogfen cynllunio defnydd tir ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio ym Mro Morgannwg. Noda'r CDLI amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a rheoli tir tan 2026. Mae Fframwaith Monitro yn y CDLI sy'n cynnwys targedau a dangosyddion y gellir mesur perfformiad y polisïau a'r dyraniadau yn eu herbyn.
- 2.1.2. Mae Adran 61 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) (PCPA) a'r Rheoliadau cysylltiedig yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLI) barhau i adolygu pob mater y gellir disgwyl iddynt effeithio ar ddatblygiad eu hardal neu ar gynllunio ei datblygiad. Gwna adran 76 o'r Ddeddf hi'n ofynnol i'r Cyngor gyflwyno'r wybodaeth hon ar ffurf Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB).
- 2.1.3. Yr AMB yw'r mecanwaith allweddol i asesu cyflenwad a gweithrediad strategaeth CDLI ac mae'n darparu tryloywder yn y broses gynllunio trwy hysbysu rhanddeiliaid, grwpiau busnes a'r gymuned am effeithiolrwydd, a nodi unrhyw broblemau.
- 2.1.4. Amlinellir rheoliadau a chanllawiau ar ffurf a chynnwys yr AMB yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd) a Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol (Rhifyn 2 Awst 2015). Mae'r Llawlyfr CDLI yn nodi y dylai'r AMB cyntaf yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31^{ain} Hydref yn y flwyddyn ar ôl mabwysiadu'r CDLI cyntaf, oni bai bod llai na 12 mis wedi mynd heibio ers ei fabwysiadu, ac os felly dylid ei gyflwyno erbyn 31^{ain} Hydref yn y flwyddyn ddilynol.
- 2.1.5. Mae gan yr AMB ddwy brif rôl:
- Ystyried a yw'r polisïau a nodwyd yn Fframwaith Monitro'r CDLI yn cael eu cyflawni a'u gweithredu'n llwyddiannus; ac
 - Ystyried y Cynllun yn ei gyfanrwydd yn erbyn yr holl wybodaeth a gasglwyd i benderfynu a oes angen adolygiad cyflawn neu rannol o'r Cynllun.
- 2.1.6. Mae'r AMB hefyd yn gyfle i'r Cyngor asesu'r effaith y mae'r CDLI yn ei chael ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ei ardal weinyddol. Gall gynorthwyo'r Cyngor i:
- Nodi meysydd o lwyddiant;
 - Nodi lle nad yw rhai polisïau yn llwyddo i gyflawni'r amcanion a fwriadwyd;
 - Nodi bylchau yn y sylfaen dystiolaeth, efallai trwy newid yn yr economi, y mae angen ymdrin â hwy a'u hadlewyrchu yn y CDLI; a
 - Nodi pa gamau a gymerir i ymdrin â'r materion a nodwyd i sicrhau bod y CDLI yn cael ei weithredu, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau y mae angen eu gwneud i'r CDLI.
- 2.1.7. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gychwyn adolygiad llawn o'r CDLI bob 4 blynedd. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r Cyngor adolygu cynnydd wrth weithredu'r polisïau a gwneud addasiadau lle bo angen. Bydd yr adolygiad hefyd yn galluogi'r Cyngor i sicrhau bod y CDLI yn cael ei ddiweddarau mewn perthynas â newidiadau mewn polisi

cynllunio cenedlaethol a dogfennau/deddfwriaeth genedlaethol a rhanbarthol berthnasol arall. Felly bydd angen adolygiad llawn o'r CDLI erbyn Mehefin 2021 oni bai bod AMB yn nodi bod angen adolygiad yn gynharach.

- 2.1.8. Ochr yn ochr â'r prif amcanion hyn, rhaid i'r AMB hefyd ystyried cydymffurfiad â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG) a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC). Paratowyd yr AMB yn unol â gofynion Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005; Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Strategol (2004); a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (2004).
- 2.1.9. Dyma'r AMB cyntaf a baratowyd gan Gyngor Bro Morgannwg ac mae'n seiliedig i raddau helaeth ar ddata a gasglwyd dros y cyfnod 1^{af} Ebrill 2018 i 31^{ain} Mawrth 2019. Bydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31^{ain} Hydref 2019 yn unol â Rheoliadau'r CDLI.

2.2. Y GOFYNIAD I FONITRO'R CDLL

- 2.2.1. Gwna adran 61 o PCPA 2004 hi'n ofynnol i awdurdodau lleol barhau i adolygu materion a allai effeithio ar gynllunio a datblygu eu hardaloedd neu gynllunio eu datblygiad.
- 2.2.2. Mae'r materion hyn yn cynnwys:
- Prif nodweddion ffisegol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ardal yr awdurdod (gan gynnwys i ba raddau y defnyddir y Gymraeg yn yr ardal);
 - Y prif ddibenion defnydd tir yn yr ardal;
 - Maint, cyfansoddiad a dosbarthiad poblogaeth yr ardal;
 - Cyfathrebu, system drafnidiaeth a thraffig yr ardal;
 - Unrhyw ystyriaethau eraill y gellir disgwyl iddynt effeithio ar y materion hynny;
 - Y materion eraill a ragnodir neu a gyfarwyddir gan y Cynulliad mewn achos penodol.
- 2.2.3. Gwna Rheoliad 37 o Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) hi'n ofynnol i ACLI gyhoeddi ei AMB ar ei wefan a hefyd ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol ar neu cyn y dyddiad a bennir yn y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Cynulliad.
- 2.2.4. Gwna rheoliad 37 hi'n ofynnol i'r AMB:
- Nodi polisiau nad ydynt yn cael eu gweithredu;
- 2.2.5. Ac yn achos pob polisi:
- Nodi'r rhesymau pam nad yw'r polisi'n cael ei weithredu;
 - Nodi'r camau (os o gwbl) a gymerir i alluogi gweithredu'r polisi;
 - Archwilio a oes angen diwygiad i'r cynllun i ddisodli neu newid y polisi.
- 2.2.6. Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r AMB fonitro dangosyddion 'craidd' fel a ganlyn:

- Y cyflenwad tir tai a gymerwyd o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai gyfredol (wedi'i fesur mewn cyflenwad blynyddoedd) (gweler dangosydd 7.1), a;
- Nifer yr anheddau fforddiadwy a marchnad gyffredinol ychwanegol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI (h.y. trwy'r system gynllunio). Dylai hyn nodi lefel y tai newydd a adeiladwyd, ac eithrio unrhyw ddymchweliadau, yn ystod y cyfnod AMB ac ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu (gweler dangosydd 7.2).

2.2.7. Mae Dangosyddion Allbwn Craidd eraill ar gyfer CDLI yn cynnwys:

- Cyfanswm yr unedau tai a ganiateir ar safleoedd a ddyrannwyd fel % o'r ddarpariaeth dai gyffredinol (gweler dangosydd 1.1);
- Tir cyflogaeth a ganiateir (ha) ar safleoedd a ddyrannwyd fel % o'r holl ddyraniadau cyflogaeth (gweler dangosydd 8.1);
- Faint o brif ddatblygiad manwerthu, swyddfa a hamdden (metr sgwâr) a ganiateir o fewn a thu allan i ffiniau canol tref a chanolfannau ardal sefydledig (gweler dangosydd 6.1); a
- Faint o agregau wedi'u hennill o'r tir a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau wedi'i fynegi fel canran o'r capasiti cyfan sy'n ofynnol, fel a nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN) (gweler dangosydd 10.1).

2.3. FFRAMWAITH MONITRO CDLL BRO MORGANNWG

2.3.1. Mae Adran 9 y CDLI o'r enw 'Mesur Llwyddiant' yn nodi'r Fframwaith Monitro sy'n sail i'r AMB hwn a'r AMB'au olynol.

2.3.2. Mae'r Fframwaith Monitro yn cynnwys set o dargedau a dangosyddion y gellir mesur perfformiad y polisiau a'r cynigion datblygu yn y CDLI yn eu herbyn. Datblygwyd y Fframwaith Monitro yn unol â Rheoliadau a chanllawiau perthnasol Llywodraeth Cymru ar fonitro ac fe'i ystyriwyd yn Archwiliad y CDLI ac yn Adroddiad yr Arolygwyr.

RHEOLIADAU ASESIAD AMGYLCHEDDOL CYNLLUNIAU A RHAGLENNI (CYMRU) 2004 A RHEOLIADAU CADWRAETH CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU 2010 (FEL Y'U DIWYGIWYD)

2.3.3. Yn ychwanegol at y gofynion i fonitro'r CDLI fel y nodir uchod, rhaid i'r CDLI a'r AMB gydymffurfio â Chyfarwydddebau a Rheoliadau Ewropeaidd perthnasol. Yn hyn o beth, dylai monitro'r CDLI gydymffurfio â'r gofynion ar gyfer monitro perfformiad cynaliadwyedd y CDLI trwy'r broses Aseiad Amgylcheddol Strategol/ Arfarniad o Gynaliadwyedd.

2.3.4. Mae'r AoG yn helpu i ddangos bod y CDLI yn gadarn trwy sicrhau ei fod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy, ac yn cyfrannu at gyfiawnhad rhesymegol polisiau. Mae AoG y CDLI yn nodi set o amcanion a dangosyddion effaith sylweddol y bwriedir iddynt fesur effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y CDLI.

2.3.5. Amcanion Cynaliadwyedd y CDLI yw:

- 1 | I ddarparu cyfle i bobl fodloni eu hanghenion tai.
- 2 | I gynnal, hyrwyddo a gwella'r ystod o gyfleusterau lleol.
- 3 | I gynnal a gwella mynediad i bawb.
- 4 | I leihau'r achosion o amddifadedd.
- 5 | I gynnal, diogelu a gwella ysbryd cymunedol.
- 6 | I leihau'r achosion a rheoli effaith newid yn yr hinsawdd.
- 7 | I leihau gwastraff i'r eithaf.
- 8 | I ddefnyddio tir yn effeithiol ac effeithlon.
- 9 | I ddiogelu a gwella'r amgylchedd adeiledig a naturiol.
- 10 | I ddarparu amgylchedd o ansawdd uchel ym mhob datblygiad newydd.
- 11 | I amddiffyn, gwella a hyrwyddo ansawdd a chymeriad diwylliant a threftadaeth Bro Morgannwg.
- 12 | I leihau'r angen i deithio a galluogi defnyddio dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy.
- 13 | I ddarparu ar gyfer ystod amrywiol o gyfleoedd gwaith lleol.
- 14 | I gynnal a gwella bywiogrwydd a hyfywedd trefi, ardaloedd a chanolfannau lleol y Fro.
- 15 | I hyrwyddo twristiaeth briodol.

2.3.6. Felly mae paratoi'r AMB yn unol â'r gofynion ar gyfer monitro perfformiad cynaliadwyedd y Cynllun trwy Reoliadau Asesiad Amgylcheddol Cynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd).

FFURF A CHYNNWYS ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL

2.3.7. Yr AMB yw'r prif fecanwaith ar gyfer adolygu perthnasedd a llwyddiant y CDLI a bydd AMB'au dilynol yn helpu i nodi unrhyw newidiadau o dueddiadau sefydledig a allai fod yn angenrheidiol.

2.3.8. Felly lluniwyd yr AMB gan roi sylw i Lawlyfr y CDLI (2015), ac mae ei drefn fel a ganlyn:

- **Adran 1 Crynodeb Gweithredol** - darparu crynodeb o ganfyddiadau allweddol yr AMB.
- **Adran 2 Cyflwyniad** - amlinellu gofynion, pwrpas a strwythur yr AMB.
- **Adran 3 Newidiadau cyd-destunol** - darparu trosolwg o'r wybodaeth gyd-destunol berthnasol a allai, er ei bod y tu allan i gylch gwaith y Cynllun, effeithio ar berfformiad fframwaith polisi'r CDLI. Darperir gwybodaeth gyd-destunol sy'n benodol i bolisi yn yr adran dadansoddi polisi perthnasol, gan gynnwys newidiadau i'r fframwaith polisi ar lefel genedlaethol neu leol.
- **Adran 4 CDLI a Phroses Monitro'r AoG** - esbonio'r prosesau monitro a gynhaliwyd.
- **Adran 5 Fframwaith Monitro'r CDLI** - Dadansoddiad Polisi - Adroddiadau ar berfformiad dangosyddion monitro'r CDLI fel y'u nodwyd yn Fframwaith Monitro'r CDLI ac y cytunwyd arnynt yn ystod y broses archwilio'r CDLI.

- **Adran 6 Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd** - darparu asesiad o berfformiad perfformiad y CDLI yn erbyn 15 amcan yr AoG.
- **Adran 7 Casgliadau ac argymhellion** - nodi trosolwg o holl ddangosyddion a pherfformiad y Cynllun yn ystod y cyfnod monitro 1^{af} Ebrill 2018 i 31^{ain} Mawrth 2019.

MONITRO YN Y DYFODOL

- 2.3.9. Mae Llwylyfr y CDLI yn cynghori y dylai strwythur eang yr AMB aros yr un fath o flwyddyn i flwyddyn er mwyn galluogi cymariaethau rhwng adroddiadau olynol ac adeiladu ar ganlyniadau blaenorol. Fodd bynnag, o gofio bod y broses fonitro yn dibynnu ar ystod eang o wybodaeth ystadegol a geir gan y Cyngor a ffynonellau allanol e.e. StatsCymru, gallai unrhyw newidiadau i'r ffordd y cyflwynir y ffynonellau gwybodaeth allanol wneud rhai dangosyddion yn aneffeithiol neu'n hen ffasiwn. Felly, er y bydd pob ymgais gan y Cyngor i gynnal ffurf gyson o safbwynt dylanwadau allanol yr AMB, efallai y bydd angen ymgorffori newidiadau adrodd mewn AMB'au yn y dyfodol.

2.4. NEWIDIADAU CYD-DESTUNOL

- 2.4.1. Mae'n bwysig deall sut mae dylanwadau allanol a/neu ffactorau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol wedi effeithio neu ddylanwadu ar weithrediad strategaeth ac amcanion y CDLI.
- 2.4.2. Felly mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth am yr amrywiol newidiadau cyd-destunol sydd wedi digwydd ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu ym mis Mehefin 2017. Cynhwysir deddfwriaeth genedlaethol newydd/ ddiwygiedig a/neu gynlluniau, polisïau a strategaethau perthnasol ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol a allai gael effaith ar gyflawni'r strategaeth CDLI. Yn ogystal, mae'r adran hefyd yn darparu trosolwg o'r sefyllfa economaidd gyffredinol dros y cyfnod monitro ynghyd â gwybodaeth am gynnydd ar Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) allweddol. Lle bo hynny'n briodol, nodwyd unrhyw oblygiadau posibl i'r CDLI. Darperir gwybodaeth gyd-destunol sy'n benodol i faes polisi CDLI penodol yn yr adran dadansoddi polisi perthnasol er hwylustod ac felly ni chaiff ei hailadrodd yma.

2.5. NEWIDIADAU DEDDFWRIAETHOL

DEDDF IECHYD CYHOEDDUS (CYMRU) 2017

- 2.5.1. Derbyniodd Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2017. Mae'r Ddeddf yn gwneud newidiadau i'r gyfraith yng Nghymru i wella iechyd ac atal niwed iechyd y gellir ei osgoi. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gynhyrchu strategaeth genedlaethol ar atal a lleihau gordewdra, a chynhyrchwyd strategaeth ddrafft o'r enw 'Pwysau Iach, Cymru Iach' ar gyfer ymgynghoriad ym mis Ebrill 2019. Mae'r strategaeth ddrafft yn tynnu sylw at bwysigrwydd yr amgylchedd lleol wrth alluogi pobl i wneud dewisiadau bwyd iach, hwyluso teithio llesol, darparu manau gwyrdd a

chyfleoedd ar gyfer chwaraeon, chwarae a hamdden. Noda bod gan y system gynllunio botensial i chwarae rhan bwysig i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a chreu amodau i helpu pobl fyw bywydau iach.

- 2.5.2. Mae Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus gynnal Asesiadau Effaith ar Iechyd (AEI'au) mewn amgylchiadau penodol. Bydd y rheoliadau pan gânt eu cyhoeddi yn nodi'r amgylchiadau pryd y mae'n rhaid i gorff cyhoeddus gynnal AEI a'r ffordd y mae'n rhaid iddo ymgymryd â AEI. Ymgwymerwyd ag AEI o'r CDLI fel rhan o broses y CDLI a gellir ei weld ar-lein trwy'r ddolen ganlynol:

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Living/Planning/Polisi/CDLI/Examination-Documents-2015/SD28%20-%20SD65%20-%20Deposit%20LDP%20Background%20Papers/SD28%20-%20Health%20Impact%20Assessment%202013.pdf>

- 2.5.3. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor hefyd yn paratoui CCA newydd ar Iechyd, Llesiant a'r Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig. Ceisia'r CCA sicrhau bod Iechyd a Llesiant yn ystyriaethau allweddol yn y broses gynllunio trwy dynnu sylw at sut y gall yr amgylchedd adeiledig a naturiol effeithio ar Iechyd a Llesiant. Bydd gofynion y Ddeddf yn cael eu hystyried yn llawn ac yn rhan o'r adolygiad arfaethedig o'r CDLI maes o law.

2.6. POLISI CYNLLUNIO CENEDLAETHOL

FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL (FfDC)

- 2.6.1. Dechreuodd Llywodraeth Cymru ar y gwaith o gynhyrchu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a fydd yn disodli Cynllun Gofodol Cymru maes o law. Bydd y FfDC yn nodi'r fframwaith gofodol 20 mlynedd ar gyfer defnydd tir yng Nghymru, gan ddarparu cyd-destun ar gyfer darparu seilwaith/ twf newydd. Gwna Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 hi'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol roi sylw i FfDC wrth baratoi eu CDLIau yn y dyfodol.
- 2.6.2. Bydd y FfDC:
- Yn nodi ble mae angen twf a seilwaith cenedlaethol bwysig a sut y gall y system gynllunio - yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol - ei gyflawni.
 - Rhoi cyfeiriad ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a chefnogi penderfyniadau ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.
 - Eistedd ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru, sy'n nodi polisiau cynllunio Llywodraeth Cymru ac a fydd yn parhau i ddarparu'r cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir.
 - Cefnogi strategaethau economaidd, trafndiaeth, amgylcheddol, tai, ynni a diwylliannol cenedlaethol a sicrhau y gellir eu cyflawni trwy'r system gynllunio.
 - Yn cael ei adolygu bob 5 mlynedd.
- 2.6.3. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â Galwad am Dystiolaeth a Phrojectau ac wedi ymgynghori ar ystod o faterion ac opsiynau. Cyhoeddwyd dogfen ddrafft ymgynghori yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru a rhagwelir y bydd yn cael ei

mabwysiadu'n ffurfiol erbyn Medi 2020. Yn unol â chanllawiau LIC, bydd adolygiad y CDLI yn rhoi sylw i'r FfDC a bydd unrhyw oblygiadau yn cael eu hadrodd mewn AMB'au yn y dyfodol.

POLISI CYNLLUNIO CYMRU RHIFYN 10 (RHAGFYR 2018)

- 2.6.4. Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10) (PCC 10) diwygiedig sydd wedi'i ailstrwythuro, gan symud i ffwrdd o benodau pwnc-benodol at themâu polisi sy'n deillio o'r nodau llesiant a nodir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (DLICD).
- 2.6.5. Mae PCC 10 yn amlinellu nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru o'r system cynllunio defnydd tir yng Nghymru ar draws ystod o bynciau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd; gan ddangos bod y system gynllunio yn ganolog i gyflawni nodau datblygu cynaliadwy DLICD.
- 2.6.6. Ystyria PCC 10 mai'r ffordd orau o weithredu gofynion DLICD yw trwy fabwysiadu dull 'creu lle' o wneud cynlluniau, polisi cynllunio a gwneud penderfyniadau ar lefel leol a chenedlaethol. Diffinnir creu lleoedd yn PCC 10 fel:
- “Ffordd holistig o fynd ati i gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd yw “creu lle”, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau positif. Mae'n tynnu ar botensial ardal i greu datblygiadau a manau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn eu hystyr ehangaf.”* (gweler tudalen 16)
- 2.6.7. Mae PCC 10 yn nodi 'Creu Lle' fel cysyniad canolog ar gyfer darparu lleoedd cynaliadwy ac mae'n nodi pum egwyddor cynllunio genedlaethol allweddol sy'n sail i gyflawni creu lleoedd ac y mae'n rhaid i gynlluniau datblygu a chynigion datblygu geisio eu cyflawni. Y rhain yw:
- Tyfu Ein Economi mewn Dull Cynaliadwy;
 - Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau;
 - Hwyluso Amgylcheddau Hygyrch ac Iach;
 - Creu a Chynnal Cymunedau; a
 - Gwneud y mwyaf o Ddiogelu'r Amgylchedd a Chyfyngu Effaith Amgylcheddol.
- 2.6.8. Nid yw'r newidiadau a wnaed yn PCC (Rhifyn 10) yn gwrthdaro â chynnwys Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011-2026.

2.7. NODIADAU CYNGOR TECHNEGOL (TANS)

TAN 20: CYNLLUNIO A'R IAITH GYMRAEG (HYDREF 2017)

- 2.7.1. Mae TAN 20: Cynllunio a'r iaith Gymraeg gan Lywodraeth Cymru yn ymgorffori newidiadau a ddaeth yn sgil Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Gwna'r Ddeddf hi'n ofynnol i ystyried y Gymraeg ar bob lefel o'r system gynllunio, o'r FfDC, hyd at Gynlluniau Datblygu Strategol (CDS'au) a CDLI'au.

- 2.7.2. Mae'r TAN 20 sydd wedi'i ddiweddarau yn rhoi cyngor i awdurdodau cynllunio lleol, datblygwyr a chymunedau ar sut y gall y system gynllunio gefnogi a diogelu'r Gymraeg. Mae'n nodi ei bod yn bwysig i bob cynllun datblygu ystyried sut mae'r strategaeth, y polisiâu a'r cynigion safle-benodol yn cyfrannu at greu'r amodau i'r iaith ffynnu. Mae hefyd yn ddyletswydd gyfreithiol i ystyried y Gymraeg fel rhan o'r AoG. Cefnoga'r TAN 20 diwygiedig y Strategaeth Iaith Gymraeg trwy annog CDLlâu i hyrwyddo lleoedd lle gall bywyd cymunedol ddigwydd yn y Gymraeg, ac mae'n ceisio sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol yn gweld datblygiad yn hanfodol i ddyfodol yr iaith.
- 2.7.3. Er bod y TAN diwygiedig wedi cael ei gyhoeddi ar ôl mabwysiadu'r CDLI, ystyriwyd ei oblygiadau trwy'r broses Archwilio (gweler Sesiwn Gwrandawriad 1: Pwynt Gweithredu 13) a arweiniodd at welliant i'r CDLI (gweler para. 3.6) i adlewyrchu pwysigrwydd yr iaith Gymraeg.

3. CYD-DESTUN RHANBARTHOL

CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL (CDS)

- 3.1.1. Mae Rhan 3 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol i gyflwyno CDS i ddelio'n fwy effeithiol â materion cynllunio trawsffiniol. Felly bydd CDS yn caniatáu i faterion rhanbarthol fel yr angen am dai, ardaloedd chwilio am safleoedd cyflogaeth strategol a seilwaith trafnidiaeth ategol, sy'n torri ar draws nifer o awdurdodau cynllunio lleol, gael eu hystyried a'u cynllunio mewn ffordd integredig.
- 3.1.2. Rhaid i CDS'au gydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC a rhaid i awdurdodau cynllunio lleol mewn ardal a gwmpesir gan CDS roi sylw iddo wrth ddatblygu eu CDLI'au. Pan fo CDS yn cwmpasu ardal weinyddol CDLI, dim ond cynhyrchu CDLI 'ysgafn' fydd rhaid i'r ACLI ei wneud ar gyfer y rhan o'u hardal sydd eisoes wedi'i chynnwys yn y CDS.
- 3.1.3. Cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at dri maes cynllunio strategol posibl gan gynnwys De-ddwyrain Cymru. Felly o'r 29^{ain} Ionawr 2018, cytunodd Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR) y dylai gwaith ddechrau ar CDS ar gyfer y 10 Awdurdod Lleol yn Rhanbarth Prifddinas Caerdydd sef: Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen, a Bro Morgannwg.
- 3.1.4. Bydd CDS ar gyfer rhanbarth de-ddwyrain Cymru yn ategu'r dull dinas-ranbarth ac yn rhoi cyfle i ymgorffori gwaith dinas-ranbarth yn y system gynllunio. Sefydlwyd gweithgor, sy'n cynnwys cynrychiolwyr Grŵp Cyfarwyddwyr yr Amgylchedd ac Adfywio De-ddwyrain Cymru (SEWDER) a Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru (SEWSPG), i gynghori Cyd-Gabinet Cysgodol Y Fargen Ddinesig ar y ffordd orau o gyflawni'r ymrwymiad hwn.
- 3.1.5. Sefydlwyd Grŵp Project CDS yn ystod y cyfnod monitro cyfredol sydd â'r dasg o ddatblygu opsiynau allweddol ar gyfer y CDS, gan gynnwys ffin y CDS, llywodraethu, amserlen a chwmpas. Ar 10^{fed} Mehefin 2019, cytunodd y Cabinet CCR ar adroddiad drafft a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ffurfiol i symud ymlaen gyda'r CDS, a fydd yn cael ei ystyried gan bob Cyngor cyfansoddol maes o law. Amlinellodd yr adroddiad hefyd y trafodaethau a'r cytundeb y daethpwyd iddo yn anffurfiol trwy gydweithrediad y Cabinet CCR, a darparwyd mwy o wybodaeth am y ffordd ymlaen.
- 3.1.6. Rhoddodd y Cyngor Bro Morgannwg ei gymeradwyaeth i gychwyn yn ffurfiol gyda CDS ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gyda Chyngor Bro Morgannwg yn Awdurdod Cyfrifol, ar 29^{ain} Gorffennaf 2019 (cofnod C44). Bydd cynnydd yn y dyfodol ar y CDS ac unrhyw oblygiadau dilynol ar gyfer adolygiad y CDLI yn cael eu nodi mewn AMB'au yn y dyfodol.

Y FARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD

- 3.1.7. Ar 27^{ain} Gorffennaf 2015, cytunodd y Cabinet i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynllun ar gyfer Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCRCD), gyda phob un o'r deg awdurdod lleol yn cyfrannu tuag at y gost o waith ymchwil a chynllunio ariannol (Cofnod Rhif C2873). Ar 2^{il} Mawrth 2016, cytunodd yr aelodau y dylai'r awdurdod (drwy'r Arweinydd) lofnodi ymrwymiad 'mewn egwyddor' i gymryd rhan yn y fenter CCRCD yn ffurfiol. Ar 15^{fed} Mawrth 2016, llofnodwyd y cytundeb CCRCD (sy'n nodi dull trawsnewidiol o sut y bydd y Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cyflwyno cyfradd a natur y buddsoddiad sydd ei angen i gefnogi cynlluniau twf yr ardal) gan y deg Arweinydd awdurdod lleol, Prif Weinidog Cymru a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys.
- 3.1.8. Bydd y CCRCD yn helpu i hybu twf economaidd trwy wella cysylltiadau trafniadaeth, cynyddu sgiliau, helpu pobl i mewn i waith a rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar fusnesau i dyfu. Bydd hefyd yn sefydlu llywodraethu cryf ar draws y rhanbarth trwy Gabinet CCRCD. Trwy hyn, bydd y deg arweinydd awdurdod lleol yn ymuno mewn gwneud penderfyniadau, yn cronni adnoddau, ac yn partneru â busnes.
- 3.1.9. Mae'r CCRCD yn cynnwys:
- Buddsoddiad o £1.2 biliwn yn seilwaith Prifddinas-Ranbarth Caerdydd trwy Gronfa Fuddsoddi 20 mlynedd.
 - Creu Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol anstatudol i gydlynu cynllunio a buddsoddi trafniadaeth, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.
 - Datblygu galluoedd mewn Cymwysiadau Lied-ddargludyddion Cyfansawdd.
 - Creu Bwrdd Sgiliau a Chyflogaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.
 - Bydd y CCRCD a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i gyd-ddylunio'r cymorth cyflogaeth yn y dyfodol o 2017 i bobl â chyflwr iechyd neu anabledd a/neu'r diwaith tymor hir.
 - Sefydlir Sefydliad Busnes Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i sicrhau bod un llais i fusnesau weithio gydag arweinwyr awdurdodau lleol.
 - Mae Llywodraeth Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ymrwymo i ddull partneriaeth newydd o ddatblygu ac adfywio tai. Bydd hyn yn sicrhau y darperir cymunedau cynaliadwy, trwy ddefnyddio ac aildefnyddio eiddo a safleoedd.
- 3.1.10. Ers llofnodi'r Cytundeb Penawdau'r Telerau yn 2016, bu'r deg awdurdod lleol yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraethau Cymru a'r DU i sefydlu'r trefniadau llywodraethu angenrheidiol i ryddhau'r gronfa fuddsoddi o £1.229 biliwn, sy'n cynnwys dwy elfen benodol, fel a ganlyn:
- £738 miliwn ar gyfer dylunio, cyflwyno a gweithredu Metro De Cymru.
 - Cronfa Cabinet Ranbarthol gwerth £495 miliwn. Mae hon yn deillio o ymrwymiad y deg Cyngor cyfansoddol i fenthycu £120 miliwn dros gyfnod o 20 mlynedd y Gronfa Fuddsoddi, ynghyd â chyllid o £375 miliwn gan Lywodraeth y DU. Cyfrifoldeb Cabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (Y Cyd-bwyllgor) fydd yr elfen hon.
- 3.1.11. Cadarnhawyd y CCRCD £1.2 biliwn yn ffurfiol ar 1^{af} Mawrth 2017 gan y deg awdurdod lleol. Ers y cadarnhad ffurfiol, mae CCRCD wedi datblygu rhaglenni

gwaith ac wedi cefnogi nifer o brojectau buddsoddi ledled y rhanbarth. Er nad oes gan gynlluniau CCRCD oblygiadau eto i Fro Morgannwg, bydd cynnydd y CCRCD ac unrhyw oblygiadau i'r CDLI yn cael ystyriaeth ddyledus mewn AMB'au dilynol lle bo hynny'n briodol.

METRO DE CYMRU

- 3.1.12. Un o amcanion Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR) yw cysylltu cymunedau, busnes, swyddi, cyfleusterau a gwasanaethau yn yr ardal. Sefydlwyd Awdurdod Trafnidiaeth CCR fel is-bwyllgor gan Gabinet CCR, i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru ac eraill, i hwyluso'r Fargen Ddinesig trwy gydlynio cynllunio trafndiaeth a buddsoddiad ar draws y rhanbarth.
- 3.1.13. Un o'r prif flaenoriaethau o ran gwell trafndiaeth yw cyflenwi Metro De Cymru. Mae £738 miliwn o gronfa'r Fargen Ddinesig wedi'i ddyrannu ymlaen llaw ar gyfer y project, a fydd yn cael ei rannu rhwng rhaglen Trydaneiddio Lein y Cymoedd a chynllun Metro De Cymru ehangach.
- 3.1.14. Mae Metro De Cymru yn broject seilwaith mawr ac mae'n arwydd o 'newid moddol' uchelgeisiol i gysylltu pobl a lleoedd a gwella daearyddiaeth economaidd swyddogaethol y rhanbarth. Mae'n cynrychioli meddwl blaengar o ran dyfodol symudedd, a'i genhadaeth yw darparu trafndiaeth gyhoeddus gyfoes a fydd yn hyrwyddo newid ymddygiad.
- 3.1.15. Yng Ngham 1 rhaglen Metro a Mwy, ceir buddsoddiad o £15 miliwn gan CCRCD, gyda chyllid cyfatebol posibl gan Lywodraeth Cymru. Ceir cyllid ychwanegol trwy gyfraniadau datblygwyr lleol, buddsoddiad gan y sector preifat a chronfeydd cyfalaf eraill. Mae Cam 1 yn cynnig ystod o gynlluniau ledled de-ddwyrain Cymru gan gynnwys datblygu cyfnewidfa bysiau a rheilffyrdd yn y Barri, ynghyd â phedwar i bum bae i fysiau, darpariaeth ar gyfer tacsis ac estyniad posibl y safle Parcio a Theithio presennol.
- 3.1.16. Er nad oes gan y cynigion metro unrhyw oblygiadau uniongyrchol i'r CDLI, bydd datblygu'r cynllun metro a chydlynio cynllunio a buddsoddi mewn trafndiaeth yn hyrwyddo datblygiad ac ehangu economaidd ymhellach ac yn dod â buddion sylweddol ar draws y brifddinas-ranbarth, gan gynnwys Bro Morgannwg. Felly bydd goblygiadau'r cynigion metro yn y dyfodol yn cael eu monitro ac yn cael eu hystyried yn briodol mewn AMB'au yn y dyfodol, lle bo hynny'n briodol.

3.2. CYD-DESTUN LLEOL

CYD-ASTUDIAETH ARGAELEDD TIR AR GYFER TAI

- 3.2.1. Mae Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai Bro Morgannwg (JHLAS) yn nodi'r ffigurau cyflenwad tir ar gyfer tai yr awdurdod. Fe'i paratwir yn unol â gofynion PCC 10 a Nodyn Cyngor Technegol 1 (TAN 1).
- 3.2.2. Mae gan yJHLAS diweddaraf ddyddiad sylfaen o 1^{af} Ebrill 2019 ac mae'n dangos, yn seiliedig ar y dull gweddilliol a nodir yn TAN 1, bod gan y Cyngor gyflenwad tir ar gyfer tai am 5.0 mlynedd. Mae'r cyflenwad tir 5.0 mlynedd yn cynnwys safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio amlinellol neu lawn, safleoedd sydd â phenderfyniad i roi caniatâd cynllunio yn amodol ar lofnodi cytundeb adran 106 a safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer tai yn y CDLI.
- 3.2.3. Mae'r JHLAS diweddaraf yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru fel y nodir yn PCC 10 sy'n nodi:

“Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol sicrhau bod digon o dir ar gael mewn gwirionedd, neu y bydd digon ar gael yn y dyfodol, i ddarparu cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai, wedi ei farnu yn ôl yr amcanion cyffredinol, sef cyfradd a lleoliad y datblygu y gofynnir amdano yn y cynllun datblygu.” (Para 4.2.15).

- 3.2.4. Paratwir JHLAS bob blwyddyn yn unol â'r canllawiau ac mae'n elfen annatod o baratoi CDLI yn y dyfodol, a chyfeirir ato mewn AMB'au yn y dyfodol lle bo hynny'n berthnasol.

ASESIADAU O'R FARCHNAD DAI LEOL

- 3.2.5. Mae Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) yn rhoi asesiad o'r farchnad dai gyfredol ym Mro Morgannwg. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynnal LHMA bob dwy flynedd. Paratwir LHMA diweddaraf Bro Morgannwg yn 2017 a defnyddiodd fethodoleg gymeradwy Llywodraeth Cymru i asesu'r farchnad dai ym Mro Morgannwg o 2017-2022 i bennu'r angen am dai fforddiadwy.
- 3.2.6. At ei gilydd, nid yw'r cyflenwad o dai fforddiadwy wedi cadw i fyny â'r galw cyffredinol, a nododd yr asesiad angen blynyddol am 576 o unedau tai fforddiadwy, yn cynnwys:
- 479 uned o lety rhent cymdeithasol.
 - 97 uned o dai rhent canolradd.
 - Ar hyn o bryd mae'r cyflenwad ymroddedig o dai perchentyaeth cost isel (LCHO) yn ddigonol i ddiwallu'r angen yn y ddeiliadaeth hon am y pum mlynedd nesaf. Fodd bynnag, mae'r angen am dai LCHO yn aml yn anhysbys hyd nes y bydd datblygiad newydd yn cychwyn ar y safle pan ddaw'r galw cudd i'r amlwg.
- 3.2.7. Mae'r LHMA yn hysbysu'r CDLI ac yn darparu tystiolaeth o'r angen am dai fforddiadwy ym Mro Morgannwg. Yn weithredol, mae hefyd yn darparu offeryn i drafod darpariaeth tai fforddiadwy ar geisiadau cynllunio, dyrannu Grant Tai

Cymdeithasol a llywio blaenoriaethau tai strategol ar lefel leol. Paratoir yr LHMA yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a bydd yn ystyriaeth yn adolygiad y CDLI ac AMB'au yn y dyfodol. Ystyriwyd goblygiadau'r LHMA diweddaraf yn llawn yn yr AMB. Yn 2019, darparwyd cyfanswm o 1,114 o anheddau fforddiadwy yn ystod cyfnod y cynllun yn erbyn targed o 3,252, ac mae llawer mwy wedi cael caniatâd neu wrthi'n cael eu hadeiladu.

ARDAL FENTER MAES AWYR CAERDYDD - SAIN TATHAN

- 3.2.8. Dynodwyd Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd - Sain Tathan gan Lywodraeth Cymru yn 2013, ac mae'n cynnwys tri pharth gwahanol; Maes Awyr Caerdydd, Parc Busnes Awyrofod Sain Tathan a Pharth Datblygu'r Porth. Mae'r ardal fenter yn ceisio adeiladu ar ac ehangu'r sector awyrofod a chynnal a chadw sydd wedi datblygu yn ac o amgylch y maes awyr a chanolfan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan, ac mae'n rhoi cyfle digynsail i Gymru gyfrannu at gystadleurwydd y DU a manteisio arno mewn sector busnes sy'n tyfu.
- 3.2.9. Cyfeirir at Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd - Sain Tathan ym mholisïau SP2, MG9 a MG10 y CDLI ac mae'n elfen allweddol yn strategaeth y Cynllun. Bydd yn cynorthwyo i gyflawni twf economaidd sylweddol sy'n gysylltiedig â hedfan nid yn unig ym Mro Morgannwg ond hefyd yn Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd ehangach.
- 3.2.10. Er bod crynodebau byr o lwyddiant a statws parhaus Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan i'w gweld isod, nid yw graddfa'r newidiadau hyd yn hyn yn teilyngu ystyriaeth bellach ar hyn o bryd yn yr AMB heblaw o dan y fframwaith monitro y cytunwyd arno. Felly bydd dwy elfen y Ardal Fenter yn parhau i gael eu monitro a'u hasesu mewn AMB'au yn y dyfodol.

PARC BUSNES AWYROFOD SAIN TATHAN

- 3.2.11. Eisoës, mae Parc Busnes Awyrofod Sain Tathan yn gartref i weithdai o'r radd flaenaf, siediau awyrennau ac adeiladau eraill ochr yn ochr â thir datblygu gyda mynediad ar ochr yr awyr sy'n ddefnyddol ar gyfer ystod o ddefnyddiau sifil neu filwrol gan gynnwys Atgyweirio ac Ailwampio Cynnal a Chadw (MRO), cynhyrchu, ailwampio peiriannau, Profion Anninistriol (NDT) ac Ymchwil a Datblygu.
- 3.2.12. Ym mis Chwefror 2016, llwyddodd Parc Busnes Awyrofod Sain Tathan i guro cystadleuaeth oddi wrth fwy nag 20 o leoliadau ledled y byd i sicrhau Aston Martin fel ei feddiannydd nesaf. Cyhoeddodd y gwneuthurwr ceir moethus eiconig ei gynlluniau i feddiannu'r Sied Awyrennau Fawr i gynhyrchu'r Aston Martin DBX newydd; disgwylir i'r cynhyrchiad llawn ddechrau yn 2020 gan greu 750 o swyddi newydd a 1000 arall yn y gadwyn gyflenwi.

MAES AWYR CAERDYDD

- 3.2.13. Mae Strategaeth y CDLI yn cydnabod pwysigrwydd Maes Awyr Caerdydd i ffyniant Bro Morgannwg yn y dyfodol, fel y mae ei ddynodiad (ynghyd â Sain Tathan) fel rhan o Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan.
- 3.2.14. Llywodraeth Cymru sy'n llwyr berchen ar y maes awyr, ac mae wedi ymrwymo i ddychwelyd nifer y teithwyr i 2.5 miliwn erbyn 2023. Yn ystod 2018, cyflawnodd y maes awyr dwf o 8% yn nifer y teithwyr ac mae bellach yn croesawu mwy na 1.58 miliwn o bobl y flwyddyn. Mae'r cynnydd hwn yn dilyn twf o 9% yn 2017 ac 16% yn 2016 sydd ar y cyfan yn cynrychioli cynnydd o 60% ers y newid i berchnogaeth Llywodraeth Cymru yn 2013.
- 3.2.15. I gefnogi ei ddyheadau, ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd y maes awyr ei Uwchgynllun 20 mlynedd sy'n nodi ei gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer twf hyd at 2040. Mae'r Uwchgynllun yn ceisio hyrwyddo ystod eang o welliannau yn y maes awyr gan gynnwys:
- Terfynellau teithwyr a chargo newydd;
 - Mynediad ffordd bwrpasol newydd;
 - Gwell cysylltiadau i feicwyr a cherddwyr; ac
 - Integreiddio â Metro De Cymru yn y dyfodol.
- 3.2.16. Mae'r Cyngor wedi paratoi ac ymgynghori ar CCA drafft newydd a fydd yn arwain datblygiad yn y dyfodol ym Maes Awyr Caerdydd a Pharth Datblygu'r Porth cyfagos. Hefyd cyflwynwyd cais cynllunio amlinellol mewn perthynas â'r tir i'r de o Port Road ar gyfer parc busnes ac estyniad i Barc Gwledig Porthceri, sy'n dangos yr ymrwymiad i lwyddiant y maes awyr a'r ardal fenter ehangach.

YR IAITH GYMRAEG

- 3.2.17. Yn 2011, datgelodd y Cyfrifiad y gallai 8.2% o'r boblogaeth siarad, darllen neu ysgrifennu'r Gymraeg ym Mro Morgannwg o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 14.6%. Nid oedd gan 83.7% o boblogaeth y Fro neu oddeutu 122,018 o bobl unrhyw sgiliau Gymraeg o gwbl, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 73.4% o'r boblogaeth. Felly, ystyrir bod y defnydd o'r Gymraeg ym Mro Morgannwg yn gyfyngedig ac nid ar lefel ddigon uchel i gynigion datblygu a pholisïau cynllunio defnydd tir y CDLI gael effaith niweidiol ar ei defnydd o ran cydbwysedd ieithyddol ym Mro Morgannwg.

CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL

- 3.2.18. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo nifer o ddogfennau CCA newydd/ wedi'u diweddarau sy'n cefnogi meysydd polisi allweddol y CDLI ers mabwysiadu'r CDLI fel y manylir yn y Fframwaith Monitro. Mae'r rhain fel a ganlyn:
- Tai Fforddiadwy
 - Bioamrywiaeth a Datblygu
 - Addasu ac Adnewyddu Adeiladau Gwledig

- Diogelu Mwynau
- Safonau Parcio
- Rhwymedigaethau Cynllunio
- Celf Gyhoeddus mewn Datblygiadau Newydd
- Datblygiad Preswyl a Deiliaid Tai
- Ynni Adnewyddadwy
- Twristiaeth a Datblygu
- Coed, Coetir, Gwrychoedd a Datblygu

3.2.19. Yn ogystal â'r uchod, paratowyd y CCA safle-benodol canlynol a fydd yn arwain datblygiad ar safle(oedd) sensitif a/neu strategol:

- Maes Awyr Caerdydd a Pharth Datblygu'r Porth

3.2.20. Mae gwaith ar CCA arall yn parhau a bydd diweddariadau yn cael eu hadrodd yn yr AMB nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dylunio yn y Dirwedd
- Iechyd, Llesiant a'r Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig
- Manwerthu a Chanolfannau Trefi
- Safleoedd Cyflogaeth ac Adeiladau
- Datblygu mewn Ardaloedd Cadwraeth

3.3. DYLANWADAU CENEDLAETHOL

BREXIT

3.3.1. Ar 23 Mehefin 2016, pleidleisiodd y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd mewn refferendwm ledled y DU. Er bod canlyniadau llawn y penderfyniad hwn yn parhau i fod yn anhysbys, mae'r penderfyniad a'r ansicrwydd sydd wedi eu creu heb os wedi cael effaith ar economïau Cymru a'r DU.

3.3.2. Er bod goblygiadau tymor hwy penderfyniad y refferendwm yn parhau i fod yn anhysbys, mae'r rhan fwyaf o economegwyr yn cytuno'n gyffredinol y bydd economi'r DU yn arafu, neu o bosibl yn dirywio, yn y tymor byr o leiaf. Gan fod economi Cymru i raddau helaeth yn olrhain economi'r DU ehangach, mae'n annhebygol iawn y bydd Cymru'n dianc rhag y cwmp economaidd o benderfyniad Brexit 2016.

TUEDDIADAU ECONOMAIDD CYFFREDINOL

GWEITHGAREDD ECONOMAIDD:

3.3.3. Mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu Bwletinau Ystadegol misol sy'n dwyn ynghyd yr ystadegau allweddol diweddaraf sy'n ymwneud ag economi a marchnad lafur Cymru. Mae'r bwletin diweddaraf (16 Mai 2019 SB 19/2019) yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Ionawr a Mawrth 2019 ac yn ogystal â'r data gweithgaredd economaidd cyffredinol, mae'n cynnwys gwybodaeth am bedwar


dangosydd cenedlaethol fel y'u diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

- 3.3.4. Cyhoeddir prif amcangyfrifon Arolwg y Llafurlu (LFS) gan SYG, ym Mwletin Ystadegol y Farchnad Lafur sy'n cynnwys ffigurau pennawd Cymru gyfan. Mae'r bwletin yn darparu dadansoddiad manylach o ddata Cymru na bwletin SYG, ac yn cyflwyno'r amcangyfrifon hynny ochr yn ochr ag amcangyfrifon pennawd eraill ar gyfer economi a marchnad lafur Cymru.

CYFLOGAETH:

- 3.3.5. Roedd 1.5 miliwn o bobl mewn cyflogaeth yng Nghymru rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2019, i fyny 34,000 (2.3 y cant) o'r un cyfnod flwyddyn ynghynt. Mae hon yn gyfradd o 75.4 y cant o'r rhai 16-64 oed. Mae hyn i lawr 0.8% ar y chwarter blaenorol, ond i fyny 1.8% o'r un cyfnod flwyddyn ynghynt. Cododd cyfanswm y nifer mewn cyflogaeth yn y DU o'i gymharu â'r un cyfnod flwyddyn ynghynt o 354,000 (1.1%), i 32.7 miliwn. Mae hon yn gyfradd o 76.1% o'r rhai 16-64 oed; 0.6% yn uwch na'r gyfradd ar gyfer Cymru.

FFIGUR 1: CYFRADD CYFLOGAETH (CANRAN Y BOBLOGAETH 16-64 OED)




Ffynhonnell: Dadansoddiad LIC o Arolwg y Llafurlu

- 3.3.6. Er nad yw data economaidd dadelfenedig SYG a baratoir gan 'nomis' yn uniongyrchol gymaradwy gyda data LFS yn y bwletinau ystadegol, dengys y data nomis diweddaraf ar gyfer Bro Morgannwg (Ionawr 2018 - Rhagfyr 2018) welliannau tebyg mewn cyfraddau cyflogaeth, gyda 65,700 (81.5%) o'r boblogaeth yn economaidd weithgar o gymharu â 76.7% ledled Cymru.

DIWEITHDRA:

- 3.3.7. Roedd 71,000 o bobl ddiwaith yng Nghymru rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2019, i fyny 5,000 o'r un cyfnod flwyddyn ynghynt. Mae hon yn gyfradd o 4.5% o'r boblogaeth economaidd weithgar, i fyny 0.2% o flwyddyn ynghynt. Gostyngodd nifer y bobl ddiwaith yn y DU dros yr un cyfnod o 119,000 (8.4%) i 1.3 miliwn. Mae hon yn gyfradd o 3.8% o'r boblogaeth economaidd weithgar, i lawr o 4.2% flwyddyn ynghynt.

FFIGUR 2: CYFRADD DIWEITHDRA (CANRAN Y BOBLOGAETH ECONOMAIDD ANWEITHREDOL)



Ffynhonnell: Dadansoddiad LIC o Arolwg y Llafurlu

- 3.3.8. Yn yr un modd â chyfraddau cyflogaeth, mae canran y bobl economaidd anweithredol ym Mro Morgannwg yn adlewyrchu'r darlun cenedlaethol sy'n dirywio ac mae data nomis yn dangos bod 2,200 o bobl (3.4%) ym Mro Morgannwg rhwng Ionawr 2018 a Rhagfyr 2018 yn ddiwaith.

RHAGAMCANION POBLOGAETH AC AELWYDYDD:

- 3.3.9. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi diwygio'r amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer Cymru a Lloegr mewn perthynas ag amcangyfrifon canol 2012 i ganol 2016. Rhyddhawyd y rhain ar 22^{ain} Mawrth 2018. Mae'r amcangyfrifon yn ymwneud â'r boblogaeth breswyl arferol ac fe'u defnyddir mewn rhagolygon poblogaeth sy'n llywio'r ddarpariaeth dai yn y CDLI. Mae'r ffigurau diwygiedig yn seiliedig ar fethodoleg well a oedd yn cynnwys ailgyfrifo amcangyfrifon ymfudo awdurdodau lleol yn seiliedig ar fodel dosbarthu gwell. Ailgyflwynwyd yr amcangyfrifon mewn fudo ar lefel awdurdodau lleol ar gyfer canol 2015 i ganol 2016 gan ddefnyddio data nad oedd ar gael o'r blaen ac mae dull gwell ar gyfer cyfrif dibynyddion ymfudo personél lluoedd arfog tramor hefyd wedi'u cynnwys.
- 3.3.10. Ym Mro Morgannwg arweiniodd yr adolygiad at gynnydd cyffredinol yn y boblogaeth o 0.33%. O ran yr effaith ar boblogaeth Bro Morgannwg, amcangyfrifwyd bod mwy o bobl 65 oed a hŷn yn byw yn yr awdurdod (26,474 o bobl) na phlant 0 i 15 oed (23,729 o bobl). Fodd bynnag, roedd hyn yn wir hefyd yn yr amcangyfrif gwreiddiol ac ystyrir bod y cynnydd yn y boblogaeth yn fach iawn gyda'r amcangyfrif yn cyfrifo 25 yn fwy o bobl 65 oed a hŷn a 10 yn fwy o bobl rhwng 0-15 oed. Yn gyffredinol, mae'r cynnydd o 0.33% yn y boblogaeth yn cynrychioli 428 o bobl ychwanegol wrth roi cyfrif am bob grŵp oedran. Y newid lleiaf posibl yw hwn, ac ni ystyrir ei fod yn arwyddocaol i gyfiawnhau adolygiad o'r cynllun ar hyn o bryd.

MARCHNAD DAI:

- 3.3. 11 Mae ystadegau StatsCymru Llywodraeth Cymru yn dangos y bu cynnydd graddol yn nifer yr anheddau newydd a gychwynwyd yng Nghymru hyd at uchafbwynt o 6,955 o anheddau a gychwynwyd yn 2014/15. Ers yr amser hwn, mae nifer yr anheddau a gychwynwyd wedi amrywio ac maent bellach yn

dechrau dangos gostyngiad. Dengys y ffigurau diweddaraf i 2018/19 mai dim ond 5,974 o anheddau a gychwynwyd. Fodd bynnag, ymddengys bod y ffigurau ar gyfer Bro Morgannwg yn mynd yn groes i'r duedd hon ac yn 2018/19 cychwynwyd 814 annedd o'i gymharu â dim ond 688 yn 2017/18 - cynnydd o 18.3%.


| Blwyddyn | Cychwyn Tai yng Nghymru | Bro Morgannwg |
|----------|-------------------------|---------------|
| 2012/13 | 5,291 | 108 |
| 2013/14 | 5,786 | 330 |
| 2014/15 | 6,955 | 445 |
| 2015/16 | 6,708 | 843 |
| 2016/17 | 6,871 | 740 |
| 2017/18 | 6,037 | 688 |
| 2018/19 | 5,974 | 814 |

Ffynhonnell: StatsCymru Llywodraeth Cymru Anheddau newydd a gychwynwyd yn ôl ardal awdurdod lleol a math o annedd.

TAI:

- 3.3.12. Dengys data diweddaraf Cofrestrfa Tir EM (Mynegai Prisiau Tai Cymru Ystadegau Gwladol y DU: Ionawr 2019, Cyhoeddwyd 20 Mawrth 2019) bod prisiau tai yng Nghymru wedi cynyddu 4.6% (Ionawr 2019) gyda phris tŷ cyfartalog yng Nghymru bellach yn £150,232.
- 3.3.13. Yng Nghymru, roedd prisiau tai yn tyfu'n gyflymach na chyfradd flynyddol y DU o 1.7% yn y flwyddyn hyd at fis Ionawr 2019. Mae prisiau tai wedi cynyddu ym mhob un o'r 22 ardal awdurdod lleol dros y flwyddyn ddiwethaf gyda Thorfaen a Sir Fynwy yn dangos y twf cryfaf, sydd fwyaf tebygol o fod yn gysylltiedig â diddymu tollau Pont Hafren ym mis Rhagfyr 2018.
- 3.3.14. Ym Mro Morgannwg, ar gyfartaledd, cododd prisiau tai 6.3% yn y flwyddyn hyd at fis Ionawr 2019 ac mae pris tŷ ar gyfartaledd bellach yn £225,924.

FFIGUR 3: PRISIAU TAI AR GYFARTALEDD YN ÔL AWDURDOD LLEOL YNG NGHYMRU



Ffynhonnell: Mynegai Prisiau Tai'r DU Ystadegau Gwladol Cymru: Mawrth 2019

MANWERTHU:

- 3.3.15. Yn dilyn dirwasgiad 2008, effeithiwyd yn ddifrifol ar y sector manwerthu yn y DU gyda nifer o fanwerthwyr proffil uchel fel Woolworths yn mynd i ddwylo gweinyddwyr, a arweiniodd at newidiadau sylweddol i'r stryd fawr. Yn ogystal, gostyngodd hyder defnyddwyr yn y sector manwerthu yn ddramatig dros 2008 ac arhosodd yn wan trwy gydol 2009 a 2010, gan amrywio ar gyfradd ostyngol tan 2012 pan ddechreuodd hyder defnyddwyr wella.
- 3.3.16. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae economi'r DU wedi gweld twf cyflogau a lefelau cyflogaeth isel (ar ei lefel isaf ers 1974) a fyddai fel arfer yn gwella hyder defnyddwyr. Fodd bynnag, canfu Mynegai Hyder Defnyddwyr Deloitte¹ fod hyder defnyddwyr yn ddigynfnewid ar -8% yn ail chwarter 2019 - bedwar pwynt yn is nag yr oedd yn y flwyddyn flaenorol.
- 3.3.17. Disgwylia dadansoddwyr a sylwebyddion manwerthu i wariant defnyddwyr arafu ar draws pob categori yn nhrydydd chwarter y flwyddyn. Gan fod defnyddwyr yn debygol o gyfyngu ar wariant wrth i bryderon twf cyflogau real gael eu gwrthbwyso gan bryderon ynghylch goblygiadau posibl Brexit, a allai gynnwys twf swyddi arafach, codiadau cyfraddau llog graddol a thwf prisiau tai darostyngedig.
- 3.3.18. O ran y canolfannau manwerthu ym Mro Morgannwg, mae cyflwr gwael y sector manwerthu a hyder defnyddwyr yn lleihau ym mhob categori manwerthu wedi trosi i duedd o gynyddu cyfraddau unedau gwag yn enwedig yn y canolfannau manwerthu mwy, a nodwyd fel y Canolfannau Trefi a Dosbarth o fewn Hierarchaeth Manwerthu'r CDLI. Dengys Tabl 1 duedd cyfraddau unedau gwag o 2012 ymlaen.

TABL 1: CYFRADD UNEDAU GWAG YM MRO MORGANNWG (YN ÔL UNEDAU LLAWR GWAELOD)

| Cyfradd unedau gwag | Cyfradd gyfartalog o unedau gwag yn Stryd Fawr, Y Barri | Cyfradd gyfartalog o unedau gwag yn Heol Holton, Y Barri | Cyfradd gyfartalog o unedau gwag yng nghanol tref Y Bont-faen | Cyfradd gyfartalog o unedau gwag yng nghanol tref Llanilltud Fawr | Cyfradd gyfartalog o unedau gwag yng nghanol tref Penarth | Cyfradd gyfartalog o unedau gwag yng nghanol trefi Bro Morgannwg | Cyfradd gyfartalog o unedau gwag yng Nghymru | Cyfradd gyfartalog o unedau gwag yn y DU |
|---------------------|---|--|---|---|---|--|--|--|
| 2019 | 4.8% | 17.65% | 11.96% | 7.92% | 5.14% | 9.49% | I'w gadarnhau | 10.3% |
| 2018 | 10.4% | 13.90% | 12.90% | 4% | 5.17% | 9.27% | I'w gadarnhau | 8.9% |
| 2017 | 8.8% | 14% | 8.3% | 9% | 4% | 8.8% | 12.5% | 9.4% |
| 2016 | 9.7% | 8% | 10.8% | 5.8% | 3.5% | 7.6% | 12.1% | 9.5% |
| 2015 | 10.9% | 7.6% | 7.8% | 3.9% | 5.3% | 7.1% | 15.5% | 13.3% |
| 2014 | 10.3% | 12.5% | 8.3% | 9.2% | 5.8% | 9.2% | 17.9% | 10.3% |
| 2013 | 17.5% | 8.7% | 2.8% | 4.9% | 1.6% | 7.1% | 17% | 11.9% |
| 2012 | 12.3% | 15.8% | 3% | 5% | 1% | 7.4% | 18% | 14.6% |

¹ <https://www2.deloitte.com/uk/en/pages/consumer-business/articles/consumer-tracker.html>

- 3.3.19. Mae'n ymddangos bod y duedd gyffredinol o ran cyfraddau unedau gwag ym Mro Morgannwg wedi'i halinio'n agosach â chyfradd unedau gwag cyfartalog y wlad sydd fel rheol yn well na chyfartaledd Cymru. Dengys hyn, er bod cyfraddau unedau gwag yn cynyddu ym Mro Morgannwg, bod yr awdurdod yn cynnal unedau manwerthu gweithredol yn ei ganolfannau ar gyfradd uwch na chanolfannau manwerthu eraill yng Nghymru ar sail y data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer Canolfannau Cymru yn gysylltiedig â 2017.
- 3.3.20. Ceisia Polisi MG14 (Defnyddiau Manwerthu heblaw A1 mewn Canolfannau Manwerthu Tref a Dosbarth) y CDLI leihau y golled o ddefnyddiau manwerthu A1 o fewn canolfannau. Fodd bynnag, mae'r sector manwerthu yng Nghymru yn gweld symudiad i ffwrdd oddi wrth siopau manwerthu nwyddau cymharol tuag at hamdden (bwyd, diod ac adloniant) a gwasanaethau - gan adlewyrchu'r duedd ehangach a welir yng Nghymru a'r Alban wrth i ganol trefi esblygu. Felly nid yw Polisi CDLI MG14 yn adlewyrchu'r duedd hon, ac mae'r Cyngor yn bwriadu paratoi canllawiau polisi pellach ar ffurf CCA i helpu i ddatrys materion unedau gwag parhaus a sicrhau bod polisi cynllunio lleol yn cadw llygad ar yr amgylchedd manwerthu cyfnewidiol i gynnal bywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad ei ganolfannau manwerthu. Pwysleisir ymhellach yr angen i sicrhau bod canolfannau manwerthu yn addasadwy gan dwf siopa ar-lein. Bydd angen adlewyrchu hyn hefyd yn y CCA arfaethedig.

3.4. CRYNODEB CYD-DESTUNOL

- 3.4.12. Mae'r wybodaeth gyd-destunol a ddarperir uchod wedi nodi ystod o ddeddfwriaeth newydd a chynlluniau, polisiâu, strategaethau a ffactorau economaidd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a ddaeth i'r amlwg ers mabwysiadu'r CDLI ac yn ystod y cyfnod monitro CDLI cyfredol. Er y gallai llawer o'r ffactorau a nodwyd fod ag oblygiadau yn y dyfodol o ran cyflwyno'r CDLI, ar hyn o bryd, ni ystyrir bod yr un o'r newidiadau cyd-destunol a nodwyd yn teilyngu adolygiad cynnar o'r Cynllun. Bydd AMB'au dilynol yn parhau i ddarparu diweddariadau ar wybodaeth gyd-destunol berthnasol a allai effeithio ar weithrediad y Cynllun yn y dyfodol.

4. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL A FFRAMWAITH MONITRO ARFARNIAD O GYNALIADWYEDD

4.1.1 Mae'r gwaith monitro yn cynnwys dwy elfen allweddol. Sef:

- Strategaeth, polisiau a chynigion y CDLI; a'r
- AoG sy'n cynnwys gofynion Cyfarwydeb yr AAS.

4.1.2 Mae Adran 5 yr AMB yn darparu dadansoddiad manwl o effeithiolrwydd fframwaith polisi'r CDLI wrth gyflawni'r nodau/ canlyniadau a thargedau polisi a nodwyd, ynghyd ag argymhellion priodol ar gyfer gweithredu pellach. Rhoddir ystyriaeth hefyd i unrhyw faterion cyd-destunol polisi-benodol sylweddol sydd wedi codi dros y cyfnod monitro a allai effeithio ar weithredu polisi. Yn unol â fframwaith monitro'r CDLI, mae'r dadansoddiad wedi'i grwpio yn unol â fframwaith monitro'r Cynllun ac wedi'i strwythuro yn nhrefn amcanion perthnasol y Cynllun.

4.1.3 Er mwyn galluogi cyflwyno'r CDLI yn effeithiol, datblygodd y Cyngor set o dargedau a dangosyddion y gellir mesur perfformiad y polisiau a'r cynigion datblygu yn eu herbyn. Mae llawer o'r dangosyddion yn cynnwys targedau bob dwy flynedd neu'n cyfeirio at ddyddiadau targed priodol ar gyfer datblygiadau/ cyfleusterau penodol i asesu perfformiad y Cynllun. Y targed cyffredinol ar gyfer y Cynllun yw cyflawni gweithredu'r strategaeth CDLI.

4.1.4 Mae Rheoliad 37 y CDLI yn rhagnodi dau ddangosydd craidd y mae'n rhaid eu cynnwys yn yr AMB. Nodir dangosyddion allbwn craidd eraill a awgrymir yn Llawlyfr y CDLI (Rhifyn 2, 2015) a chynhwysir y rhain yn y fframwaith monitro. Mae'r fframwaith monitro hefyd yn cynnwys ystod o ddangosyddion lleol sy'n ategu'r dangosyddion craidd y cyfeiriwyd atynt uchod. Mae'r dangosyddion lleol yn ymwneud â chyd-destun Bro Morgannwg ac yn cyfeirio at ofynion penodol polisiau a chynigion unigol a gynhwyswyd yn y CDLI. Maent hefyd yn seiliedig ar argaeledd ac ansawdd data lleol. Mae'r dangosyddion craidd a lleol yn gysylltiedig ag amcanion y CDLI ac fe'u hystyrir yn bwysig wrth fonitro effeithiolrwydd strategaeth a pholisiau'r CDLI.

4.1.5 Mae fframwaith monitro'r CDLI yn cynnwys set o ddangosyddion a thargedau a osodir yn erbyn pwyntiau sbarduno i nodi os yw un rhan o'r Cynllun yn methu â chyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Cynhwyswyd y pwyntiau sbarduno er mwyn asesu'r lefel y mae polisi wedi gwyro oddi wrth y targed monitro i'r fath raddau fel y gallai nodi bod y polisi'n methu â chael ei weithredu neu fod angen ei newid.

4.2. GRADDIO GOLEUADAU TRAFFIG O BERFFORMIAD POLISI

4.2.1 Er mwyn cynorthwyo i ddehongli a deall yr asesiad polisi ac i ddarparu trosolwg cyflym o berfformiad polisi, cynhwysir sgôr 'goleuadau traffig' ar gyfer dangosyddion perthnasol fel a ganlyn:

| |
|--|
| Parhau i Fonitro (Gwyrdd) |
| Lle mae dangosyddion yn awgrymu bod y Polisiâu CDLI yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac nad oes achos dros eu hadolygu. |
| Angen Hyfforddiant (Glas) |
| Lle mae dangosyddion yn awgrymu nad yw Polisiâu CDLI yn cael eu gweithredu yn ôl y bwriad a bod angen hyfforddiant pellach i swyddogion neu aelodau. |
| Angen Canllawiau Cynllunio Atodol a Briffiau Datblygu (Porffor) |
| Gall dangosyddion awgrymu bod angen darparu arweiniad pellach yn ychwanegol at yr hyn a nodwyd eisoes yn y Cynllun. Yn ychwanegol, os nad oes safleoedd yn dod ymlaen fel y rhagwelwyd, bydd y Cyngor yn ymgysylltu'n weithredol â datblygwyr/tirfeddianwyr i gyflwyno Briffiau Datblygu ar safleoedd allweddol i helpu dechrau'r broses ddatblygu |
| Ymchwil Polisi (Melyn) |
| Lle mae dangosyddion yn awgrymu nad yw'r Polisiâu CDLI mor effeithiol ag y dylent fod, mae angen ymchwilio ac archwilio pellach. Gall hyn hefyd gynnwys defnyddio dangosyddion cyd-destunol a chymariaethau ag awdurdodau lleol eraill ac efallai y bydd angen ystadegau cenedlaethol lle bo hynny'n briodol. |
| Adolygiad Polisi (Oren) |
| Lle mae dangosyddion yn awgrymu bod Polisiâu'r CDLI yn methu â gweithredu'r strategaeth, mae angen adolygiad ffurfiol o'r Polisi. Efallai y bydd angen ymchwilio ac archwilio pellach cyn cadarnhau penderfyniad i adolygu'n ffurfiol. |
| Adolygiad Cynllun (Coch) |
| Lle mae dangosyddion yn awgrymu bod Polisiâu'r CDLI yn methu, a bod angen adolygiad ffurfiol o'r Cynllun. Bydd angen ymchwilio i'r opsiwn hwn i adolygu'r Cynllun yn llawn a'i gynnal yn dilyn ystyriaeth ddifrifol. |

4.3. MONITRO ARFARNIAD O GYNALIADWYEDD /ASESIAD AMGYLCHEDDOL STRATEGOL

- 4.3.1. Mae'r gofyniad i ymgymryd ag AoG o'r Cynllun yn rhan annatod o broses y CDLI. Cynorthwyodd y broses AoG, a oedd yn ymgorffori gofynion y Gyfarwyddeb AAS, y Cyngor i asesu effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol tebygol y CDLI, ac i gynllunio ar gyfer mesurau lliniaru i leihau unrhyw effeithiau negyddol a sicrhau'r buddion cadarnhaol mwyaf posibl.
- 4.3.2. Mae Monitro AoG o'r CDLI yn ehangu'r asesiad o berfformiad y CDLI yn erbyn amcanion monitro'r AoG. Nododd yr AoG cychwynol set o 15 o amcanion, a datblygwyd dangosyddion a thargedau cysylltiedig i fesur effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y CDLI. Gweler y rhain yn Adran 6 yr AMB.

5. FFRAMWAITH MONITRO CYNLLUN DATBLYGU LLEOL - DADANSODDIAD POLISI

- 5.1. Mae'r adran hon yn darparu asesiad manwl o p'un a yw polisiâu strategol y Cynllun, a'r polisiâu rheoli twf/ datblygu cysylltiedig, yn cael eu gweithredu yn ôl y bwriad ac a yw strategaeth ac amcanion y CDLI yn cael eu cyflawni. Yn dilyn hynny, darperir argymhellion priodol, ynghyd â'r camau angenrheidiol i ymdrin ag unrhyw faterion gweithredu polisi a nodwyd trwy'r broses fonitro. Yn unol â'r CDLI, nodir y dadansoddiad mewn trefn wrthrychol.

| 1. CYMUNEDAU CYNALIADWY | | | |
|---|--|---|---|
| Newidiadau cyd-destunol: Cyfeirier at adran 3 o'r AMB hwn. Darperir diweddariadau mewn AMB'au yn y dyfodol. | | | |
| AMCAN 1: Cynnal a hybu datblygiad cymunedau cynaliadwy ym Mro Morgannwg, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer byw, dysgu, gweithio a chymdeithasu i bawb. | | | |
| Dangosydd Monitro Blynnyddol | Targed Monitro | Sbardun Monitro | Perfformiad |
| Cyfeirnod. 1.1 | | | |
| CRAIDD: Cyfanswm yr unedau tai a ganiatawyd ar safleoedd a ddyrannwyd fel canran o'r ddarpariaeth dai gyffredinol. | Caniatâd ar gyfer 82% o unedau o dai ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu fel canran o'r ddarpariaeth tai ar y cyfan. | 10% llai na'r targed monitro dros 2 flynedd yn olynol. | Ar 1af Ebrill 2019, cyfanswm yr anheddau a gymeradwywyd oedd 6195. Roedd 5213 o'r anheddau hyn ar safleoedd a ddyrannwyd sef 84% o'r ddarpariaeth dai gyffredinol a gymeradwywyd hyd yma. |
| Polisiâu CDLI perthnasol | | | |
| Polisiâu Strategol: SP1, SP2, SP3, SP4. Polisiâu Rheoli Twf/ Datblygu: MG1, MG2, MG3, MG4, MD2, MD4, MD5, MD6. Amcanion AoG: 1, 3, 4, 8, 10, 12. | | | |
| Dadansoddiad | | | |
| Mae Polisi SP3 yn nodi gofyniad tai o 9,460 o anheddau dros gyfnod y Cynllun. Noda'r CDLI y fframwaith polisi ar gyfer cyflawni'r gofyniad a nodwyd, ochr yn ochr â chynnwys lwfans o 10% ar gyfer hyblygrwydd i sicrhau bod ystod a dewis o dir ar gyfer tai ar gael trwy gydol cyfnod y Cynllun. | | | |
| Noda Polisi MG1 y cydrannau ar gyfer cyflenwi'r gofyniad tai a nodwyd, gan gynnwys yr hyblygrwydd o 10% fel a ganlyn: | | | |
| Datblygu Safleoedd gyda chaniatâd cynllunio sy'n bodoli eisoes (10 annedd neu fwy) ym mis Ebrill 2011 | | 182 | |
| Dyraniadau yn y Cynllun | | 8,525 | |
| Datblygu hap-safleoedd heb eu dyrannu (10 annedd neu fwy) | | 840 | |
| Datblygu safleoedd bach (llai na 10 annedd) | | 861 | |
| CYFANSWM CYFLENWAD ANHEDDAU 2011-2026 | | 10,408 | |
| Er mwyn galluogi cyflawni'r gofyniad tai, mae Polisi MG2 yn dyrannu 48 o safleoedd datblygu ledled Bro Morgannwg, a fydd gyda'i gilydd yn darparu 8,525 o anheddau. Mae hyn yn cyfateb i 82% o'r ddarpariaeth a nodir o dan Polisi MG1. | | | |
| Mae dangosydd craidd 1.1 yn ceisio monitro cymeradwyaeth safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun fel canran o'r ddarpariaeth dai gyffredinol. Er mwyn cyrraedd targed 2026 o 82%, mae angen caniatáu 568.33 o anheddau ar safleoedd a ddyrannwyd yn flynyddol (h.y. 8,525 annedd ÷ 15 mlynedd o'r Cynllun). Ar Ebrill 1af 2019, y targed ar gyfer nifer yr anheddau a gymeradwywyd ar safleoedd Polisi MG2 felly yw 4,547 o anheddau (568.33 x 8). Fodd | | | |

bynag, y gwir nifer a gymeradwywyd yw 5213 o anheddau sef 84% o'r ddarpariaeth dai gyffredinol hyd yma. Yn seiliedig ar y perfformiad hwn, ystyrir bod y Cyngor ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed monitro erbyn diwedd cyfnod y Cynllun.

Dengys y tabl isod y safleoedd tai ym Mholisi MG2 y CDLI mabwysiedig gyda chaniatâd cynllunio ar Ebrill 1af 2019. Mae llawer o'r safleoedd a restrir naill ai wedi'u cwblhau neu wrthi'n cael eu hadeiladu.

| Nifer o anheddau a gymeradwywyd ar safleoedd MG2 ar 1af Ebrill 2019 | | |
|---|--|--|
| Cyfeirnod | Safle | Nifer o anheddau a gymeradwywyd 1af Ebrill 2019 |
| MG2 (1) | Cam 2 Glannau'r Barri | 1,262 |
| MG2 (2) | Tir ym Mhen Uchaf, Sain Tathan (yn rhannol) | 108 |
| MG2 (3) | Tir yn Church Farm, Sain Tathan | 0 |
| MG2 (4) | Safle'r Hen Stadiwm / Tir ar bwys Burley Place, Sain Tathan | 0 |
| MG2 (5) | Tir i'r dwyrain o Eglwys Brewis | 253 |
| MG2 (6) | Tir ar bwys Froglands Farm, Llanilltud Fawr | 0 |
| MG2 (7) | Tir rhwng y Ffordd Fynediad Ogleddol newydd a Heol Eglwys Brewis | 0 |
| MG2 (8) | Parc Pleser Ynys y Barri | 0 |
| MG2 (9) | White Farm | 177 |
| MG2 (10) | Tir i'r dwyrain o Pencoedre Lane | 67 |
| MG2 (11) | Tir i'r gorllewin o Pencoedre Lane | 0 |
| MG2 (12) | Ysgol Maes Dyfan | 81 |
| MG2 (13) | Llys Ynadon y Barri | 52 |
| MG2 (14) | Depo Court Road, Y Barri | 0 |
| MG2 (15) | Holm View | 11 |
| MG2 (16) | Hayes Wood, The Bendricks | 0 |
| MG2 (17) | Safle Ysgol Isaf Ysgol Gyfun y Bont-faen | 21 |
| MG2 (18) | Bloc 6ed Dosbarth Ysgol Gyfun y Bont-faen, Aberthin Road | 0 |
| MG2 (19) | Tir ar bwys St. Athan Road, Y Bont-faen | 0 |
| MG2 (20) | Tir i'r gogledd a'r gorllewin o Darren Close, Y Bont-faen | 475 |
| MG2 (21) | Plasnewydd Farm, Llanilltud Fawr | 149 |
| MG2 (22) | Tir ar bwys Ffordd Osgoi Llanilltud Fawr | 65 |
| MG2 (23) | Hen Safle Ysgol Gynradd Eagleswell, Llanilltud Fawr | 0 |
| MG2 (24) | Tir yn Upper Cosmeston Farm, Larnog | 0 |
| MG2 (25) | Tir ar bwys Ysgol San Joseff, Sully Road | 74 |

| | | |
|----------|--|-------|
| MG2 (26) | Ysgol Headlands, St Augustine's Road | 0 |
| MG2 (27) | Tir ar bwys Oak Court, Penarth | 0 |
| MG2 (28) | Tir yn ac ar bwys Ysgol St. Cyres, Murch Road | 215 |
| MG2 (29) | Tir oddi ar Caerleon Road, Dinas Powys | 70 |
| MG2 (30) | Tir ar bwys Ardwyn, Pen-y-Turnpike | 18 |
| MG2 (31) | Tir yn Cross Common Road | 50 |
| MG2 (32) | Tir i'r de o Llandochau Hill / Heol Penarth | 0 |
| MG2 (33) | Tir i'r gogledd o Leckwith Road (dyrannwyd 8 annedd yn wreiddiol) | 40 |
| MG2 (34) | Llandochau Landings | 0 |
| MG2 (35) | Tir i'r gogledd o'r Lein Rheilffordd, Y Rhws | 347 |
| MG2 (36) | Tir i'r de o'r Lein Rheilffordd, Y Rhws | 87 |
| MG2 (37) | Tir i'r gorllewin o Swanbridge Road, Sili | 540 * |
| MG2 (38) | Tir i'r gorllewin o Port Road, Gwenfô | 132 |
| MG2 (39) | Tir ar bwys Court Close, Aberthin | 20 |
| MG2 (40) | Tir i'r dwyrain o Dresimwn | 120 |
| MG2 (41) | Tir y tu ôl i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant, Tregolwyn | 64 |
| MG2 (42) | ITV Cymru, Croes Cwrlwys | 224 |
| MG2 (43) | The Garden Emporium, Fferm Goch | 40 |
| MG2 (44) | Canolfan Breswyl Ogwr | 70 |
| MG2 (45) | Parc Carafanau Ogwr | 100 |
| MG2 (46) | Tir i'r dwyrain o Sain Niclas | 117 |
| MG2 (47) | Tir oddi ar St. Brides Road, Y Wig | 124 |
| MG2 (48) | Tir oddi ar Sandy Lane, Ystradowen | 40 |
| * | Mae'r ffigur yn cynnwys cais amlinellol (2016/01520/OUT) ar gyfer 190 o unedau a gymeradwywyd ym mis Tachwedd 2018 yn ddarostyngedig i A106 a chais amlinellol (2013/01279/OUT) ar gyfer 350 o unedau a gymeradwywyd ym mis Mai 2016. Bydd cais materion a gadwyd yn ôl (2019/00111/RES) ar gyfer 325 o unedau a gymeradwywyd ym mis Mehefin 2019 yn cael ei ystyried yn yr 2il AMB. | |
| | Cyfanswm Anheddau a Gymeradwywyd | 5213 |

Monitro Perfformiad Polisi

Dengys y data uchod bod y Cyngor wedi rhagori ar darged 2019 ar gyfer canran yr anheddau a gymeradwywyd ar safleoedd a ddyrannwyd, ac felly mae ar y trywydd iawn i gyflawni'r targed o 82% erbyn diwedd cyfnod y Cynllun. Mae 84% o gyfanswm yr anheddau a gymeradwywyd hyd yma wedi bod ar safleoedd a ddyrannwyd. Yn unol â hynny, mae'r Cyngor o'r farn bod y polisiâu ar gyfer cyflenwi'r gofyniad tai a nodwyd yn perfformio'n dda, yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac nad oes achos dros eu hadolygu.

Argymhelliad:

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd; parhau i fonitro mewn AMB'au yn y dyfodol.

| Dangosydd Monitro Blynyddol | Targed Monitro | Sbardun Monitro | Perfformiad |
|--|---|---|--|
| Cyfeirnod. 1.2 | | | |
| LLEOL: Cyfanswm yr unedau o dai a gwblhawyd ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu dan MG2. | Adeiladu 1,770 o anheddau ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu dan MG2 erbyn 2018. | 10% llai na'r targed monitro dros 2 flynedd yn olynol. | Ar 1af Ebrill 2018, cwblhawyd 1941 o anheddau ar safleoedd tai MG2. Mae hyn yn rhagori ar y targed monitro o 9.7%. |
| | Adeiladu 2,428 o anheddau ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu dan MG2 erbyn 2019 | | Ar 1af Ebrill 2019, cwblhawyd 2484 o anheddau ar safleoedd tai MG2. Mae hyn yn rhagori ar y targed monitro o 2.3%. |

Polisiau CDLI perthnasol

Polisiau Strategol: SP1, SP2, SP3, SP4.
Polisiau Rheoli Twf: MG1, MG2, MG3 MG4, MD2, MD4, MD6.
Amcanion AoG: 1, 3, 4, 8, 10, 12.

Dadansoddiad

Mae Papur Cefndir Trywydd Cyflenwad Tir ar gyfer Tai y Cyngor (Medi 2018) yn nodi'r disgwyliad y bydd tai newydd yn cael eu darparu ar gyfer pob blwyddyn o gyfnod y Cynllun (2011-2026) ac yn dangos sut y bydd y Cyngor yn bodloni'r gofyniad am gyflenwad tir ar gyfer tai 5 mlynedd wrth fabwysiadu'r CDLI.

Mae dangosydd lleol 1.2 yn monitro'r gyfradd flynyddol a ragwelir o gwblhau anheddau ar safleoedd a ddyrannwyd i Bolisi MG2 fel y nodir yn y trywydd tai. Rhagwelodd y byddai 1,770 o anheddau a ddyrannwyd wedi'u cwblhau erbyn Ebrill 1^{af} 2018 ac y byddai 2428 o anheddau a ddyrannwyd yn cael eu cwblhau erbyn Ebrill 1^{af} 2019.

Dengys y tabl isod nifer yr anheddau a gwblhawyd ar safleoedd a ddyrannwyd i Bolisi MG2 ar gyfer y ddau gyfnod monitro. Cwblhawyd 1,941 o anheddau erbyn Ebrill 1^{af} 2018 a chwblhawyd 2,484 o anheddau erbyn Ebrill 1^{af} 2019, y ddau ohonynt yn rhagori ar y targedau monitro.

| Cwblhau Cynnydd Dyraniadau Tai MG 2 Ebrill 1 ^{af} 2018 ac Ebrill 1 ^{af} 2019 | | | | |
|--|--|-------------------|-------------------------|-------------------------|
| Safle | Enw'r safle | Cyfanswm Anheddau | Cwblhau 1af Ebrill 2018 | Cwblhau 1af Ebrill 2019 |
| MG2 (1) | Cam 2, Glannau'r Barri | 1,700 | 560 | 871 |
| MG2 (2) | Tir ym Mhen Uchaf, Sain Tathan | 220 | 61 | 100 |
| MG2 (3) | Tir yn Church Farm, Sain Tathan | 250 | 0 | 0 |
| MG2 (4) | Safle'r Hen Stadiwm / Tir ar bwys Burley Place, Sain Tathan | 65 | 0 | 0 |
| MG2 (5) | Tir i'r dwyrain o Eglwys Brewis | 255 | 0 | 0 |
| MG2 (6) | Tir ar bwys Froglands Farm, Llanilltud Fawr | 90 | 0 | 0 |
| MG2 (7) | Tir rhwng y Ffordd Fynediad Ogleddol newydd a Heol Eglwys Brewis | 375 | 0 | 0 |

| | | | | |
|----------|--|-----|-----|-----|
| MG2 (8) | Parc Pleser Y Barri | 25 | 0 | 0 |
| MG2 (9) | White Farm | 177 | 177 | 177 |
| MG2 (10) | Tir i'r dwyrain o Pencoedtre Lane | 67 | 67 | 67 |
| MG2 (11) | Tir i'r gorllewin o Pencoedtre Lane | 137 | 0 | 0 |
| MG2 (12) | Ysgol Maes Dyfan | 81 | 81 | 81 |
| MG2 (13) | Llys Ynadon y Barri | 52 | 52 | 52 |
| MG2 (14) | Depo Court Road, Y Barri | 50 | 0 | 0 |
| MG2 (15) | Holm View | 50 | 0 | 0 |
| MG2 (16) | Hayes Wood, The Bendricks | 55 | 0 | 0 |
| MG2 (17) | Safle Ysgol Isaf Ysgol Gyfun y Bont-faen | 21 | 21 | 21 |
| MG2 (18) | Bloc 6ed Dosbarth Ysgol Gyfun y Bont-faen, Aberthin Road | 20 | 0 | 0 |
| MG2 (19) | Tir ar bwys Sain Tathan Road, Y Bont-faen | 130 | 0 | 0 |
| MG2 (20) | Tir i'r gogledd ac i'r gorllewin o Darren Close, Y Bont-faen | 475 | 0 | 0 |
| MG2 (21) | Plasnewydd Farm, Llanilltud Fawr | 149 | 0 | 37 |
| MG2 (22) | Tir ar bwys Ffordd Osgoi Llanilltud Fawr | 70 | 0 | 4 |
| MG2 (23) | Hen Safle Ysgol Gynradd Eagleswell, Llanilltud Fawr | 72 | 0 | 0 |
| MG2 (24) | Tir yn Upper Cosmeston Farm, Larnog | 576 | 0 | 0 |
| MG2 (25) | Tir ar bwys Ysgol San Joseff, Sully Road | 74 | 54 | 74 |
| MG2 (26) | Ysgol Headlands, St. Augustine's Road | 65 | 0 | 0 |
| MG2 (27) | Tir ar bwys Oak Court, Penarth | 145 | 0 | 0 |
| MG2 (28) | Tir yn ac ar bwys Ysgol St. Cyres, Murch Road | 300 | 0 | 2 |
| MG2 (29) | Tir oddi ar Caerleon Road, Dinas Powys | 70 | 0 | 22 |
| MG2 (30) | Tir ar bwys Ardwyn, Pen-y-Turnpike | 18 | 18 | 18 |
| MG2 (31) | Tir yn Cross Common Road | 50 | 0 | 1 |
| MG2 (32) | Tir i'r de o Llandochoau Hill / Heol Penarth | 130 | 0 | 0 |
| MG2 (33) | Tir i'r gogledd o Leckwith Road | 8 | 0 | 0 |
| MG2 (34) | Llandochoau Landings | 120 | 0 | 0 |
| MG2 (35) | Tir i'r gogledd o'r Lein Rheilffordd, Y Rhws | 700 | 67 | 123 |
| MG2 (36) | Tir i'r de o'r Lein Rheilffordd, Y Rhws | 87 | 87 | 87 |
| MG2 (37) | Tir i'r gorllewin o Swanbridge Road, Sili | 500 | 0 | 0 |
| MG2 (38) | Tir i'r gorllewin o Port Road, Gwenfô | 132 | 115 | 131 |

| | | | | |
|----------|--|-------|-------|-------|
| MG2 (39) | Tir ar bwys Court Close, Aberthin | 20 | 0 | 20 |
| MG2 (40) | Tir i'r dwyrain o Dresimwn | 120 | 0 | 0 |
| MG2 (41) | Tir y tu ôl i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant, Tregolwyn | 64 | 64 | 64 |
| MG2 (42) | ITV Cymru, Croes Cwrlwys | 224 | 150 | 201 |
| MG2 (43) | The Garden Emporium, Fferm Goch | 40 | 40 | 40 |
| MG2 (44) | Canolfan Breswyl Ogwr | 70 | 70 | 70 |
| MG2 (45) | Parc Carafanau Ogwr | 100 | 100 | 100 |
| MG2 (46) | Tir i'r dwyrain o Sain Niclas | 117 | 9 | 78 |
| MG2 (47) | Tir oddi ar St. Brides Road, Y Wig | 124 | 108 | 3 |
| MG2 (48) | Tir oddi ar Sandy Lane, Ystradowen | 85 | 40 | 40 |
| | | 8,525 | 1,941 | 2,484 |

Monitro Perfformiad Polisi

Fel y nodwyd uchod, mae'r Cyngor wedi rhagori ar y targedau monitro ar gyfer y dangosydd hwn. Yn unol â hynny, mae'r Cyngor o'r farn bod y polisiâu ar gyfer cyflenwi'r gofyniad tai a nodwyd yn perfformio'n dda, yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac nad oes achos dros eu hadolygu.

Argymhelliad:

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd; parhau i fonitro mewn AMB'au yn y dyfodol.

| Dangosydd Monitro Blynyddol | Targed Monitro | Sbardun Monitro | Perfformiad |
|---|--|---|---|
| Cyfeirnod. 1.3 | | | |
| CRAIDD: Tir cyflogaeth y rhoddwyd caniatâd ar ei gyfer (ha) ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu fel canran o'r holl ddyraniadau cyflogaeth. | Sicrhau caniatadau cynllunio ar 9.8% (36.3 Ha) o dir cyflogaeth erbyn 2018. | 10% llai na'r targed monitro dros 2 flynedd yn olynol. | Yn 2018 cymeradwyodd y Cyngor 36.91 ha o dir cyflogaeth ar safleoedd cyflogaeth strategol a lleol fel y nodwyd ym Mholisi MG9 y CDLI. |
| Polisiâu CDLI perthnasol | | | |
| Polisiâu Strategol: SP1, SP2, SP5. Polisiâu Rheoli Twf/ Datblygu: MG3, MG9, MG10, MG11, MD14, MD15, MD16. Amcanion AoG: 4, 10, 13. | | | |
| Dadansoddiad | | | |

At 2018 cymeradwyodd y Cyngor 36.91 ha o dir cyflogaeth ar safleoedd cyflogaeth strategol a lleol fel y nodwyd ym Mholisi MG9 y CDLI. Nodir manylion y caniatâd a'r datblygiad yn y tabl isod:

| Safleoedd Cyflogaeth Strategol - Ceisiadau Cynllunio a Gymeradwywyd | | |
|---|---|-----------------|
| Lleoliad | Manylion | Arwynebedd (ha) |
| MG9 (1) Tir i'r de o Gyffordd 34 yr M4 Hensol | 2014/00228/EAO Caniatâd cynllunio amlinellol gyda'r holl faterion wedi'u cadw'n ôl ac eithrio mynediad, ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys defnyddiau dosbarth B1, B2 a B8; canolfan hyfforddi gwestai/ preswyl (dosbarth C1/C2); a defnyddiau ategol yn nosbarth A1, A2, A3; gwaith peirianeg cysylltiedig a modelu daear a seilwaith, parcio ceir, draenio a mynediad at bob defnydd; darparu seilwaith gan gynnwys canolfan(nau) ynni); tirlunio a'r holl waith galluogi ategol. | 34.78 ha |

| Safleoedd Cyflogaeth Lleol- Ceisiadau Cynllunio a Gymeradwywyd | | |
|--|---|-----------------|
| Lleoliad | Manylion | Arwynebedd (ha) |
| MG9 (4) Ystad Masnach Atlantic | 2017/00316/FUL Plot 3B, Atlantic Gate, Ystad Masnach Atlantic, Hayes Road, Y Barri - Adeiladu uned fasnach ysgafn unllawr, wedi'i rhannu'n 4 uned ar wahân | 0.73ha |
| MG9 (6) Hayes Lane, Sili | 2018/01317/FUL - Spider Camp, Hayes Lane, Sili - Adeiladu chwe adeilad ffrâm porth a ffyrdd cysylltiedig, rhannu adeiladau i ffurfio 43 o unedau diwydiannol ysgafn | 1.4 ha |

Monitro Perfformiad Polisi

Fel y nodir uchod, mae'r Cyngor wedi rhagori ychydig ar darged monitro 2018 ar gyfer y dangosydd hwn. Yn ogystal, mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn ystyried cais amlinellol ar gyfer rhan ddeheuol y dyraniad y cyfeirir ato fel 'tir ger Maes Awyr Caerdydd a Port Road, Y Rhws. Mae'r cais hwn yn cynnig 161834 metr sgwâr o arwynebedd llawr B1, B2 a B8 newydd. Yn unol â hynny, mae'r Cyngor o'r farn bod y polisiâu ar gyfer cyflawni'r gofyniad cyflogaeth a nodwyd yn perfformio'n dda, yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac nad oes achos dros eu hadolygu.

Argymhelliad:

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd; parhau i fonitro mewn AMB'au yn y dyfodol.

2. NEWID YN YR HINSAWDD

Newidiadau cyd-destunol: Cyfeirir at adran 3 o'r AMB hwn. Darperir diweddariadau mewn AMB'au yn y dyfodol.

AMCAN 2: Sicrhau bod datblygu ym Mro Morgannwg yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at leihau effaith y newid yn yr hinsawdd a lliniaru ei effeithiau anffafriol.

| Dangosydd Monitro Blynnyddol | Targed Monitro | Sbardun Monitro | Perfformiad |
|---|--|---|---|
| REF No. 2.1 | | | |
| LLEOL: Faint o Ddatblygu (yn ôl y categorïau yn TAN15) y rhoddwyd caniatâd ar ei gyfer mewn ardaloedd gorlifdir C1 nad ydynt yn bodloni'r holl brofion yn TAN15. | Dim caniatadau cynllunio wedi'u rhoi mewn ardaloedd gorlifdir C1 oni bai bod yr holl brofion yn TAN15 wedi'u bodloni. | 1 neu fwy o ddatblygiadau wedi cael caniatâd mewn ardaloedd gorlifdir C1 nad ydynt yn bodloni'r holl brofion yn TAN15. | Ni chymeradwywyd unrhyw ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro AMB mewn ardaloedd gorlifdir C1 nad oeddent yn cwrdd â'r holl brofion TAN15. |

Polisiâu CDLI perthnasol

Polisiâu Rheoli Datblygu: MD1, MD4, ac MD7.
Amcanion AoG: 6.

| |
|--|
| Dadansoddiad |
| Bodlonwyd y targed. Ni roddwyd unrhyw ganiatâd cynllunio o fewn gorlifdir C1 na chyflawnodd bob prawf TAN 15 yn ystod y cyfnod monitro hwn. |
| Monitro Perfformiad Polisi |
| O ystyried y data monitro, mae'r Cyngor yn ystyried bod gweithredu Polisiâu MD1, MD4 a MD7 mewn cyfuniad â pholisiâu eraill yn y CDLI wedi galluogi'r Cyngor i gyflawni'r targed monitro. Yn unol â hynny, barn y Cyngor yw bod y polisiâu ar gyfer cyflawni'r targed a nodwyd yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac nad oes achos dros eu hadolygu. |
| Argymhelliad: Dim angen gweithredu ar hyn o bryd; parhau i fonitro mewn AMB'au yn y dyfodol. |

| Dangosydd Monitro Blynyddol | Targed Monitro | Sbardun Monitro | Perfformiad |
|--|--|--|---|
| Cyfeirnod. 2.2 | | | |
| LLEOL: Faint o Ddatblygu (yn ôl y categorïau yn TAN15) y rhoddwyd caniatâd ar ei gyfer mewn ardaloedd gorlifdir C2 nad ydynt yn bodloni'r holl brofion yn TAN15. | Dim caniatadau cynllunio wedi'u rhoi ar gyfer datblygiadau sy'n wynebu bygythiad mawr mewn ardaloedd gorlifdir C2 oni bai bod yr holl brofion TAN15 wedi'u bodloni. | 1 neu fwy o ddatblygiadau sy'n wynebu bygythiad mawr wedi cael caniatâd o fewn ardaloedd gorlifdir C2 heb i'r holl brofion TAN15 gael eu bodloni. | Ni chymeradwywyd unrhyw ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro AMB mewn ardaloedd gorlifdir C2 nad oeddent yn cwrdd â'r holl brofion TAN15. |
| Polisiâu CDLI perthnasol | | | |
| Polisiâu Rheoli Datblygu: MD1, MD4, MD7. Amcanion AoG: 6. | | | |
| Dadansoddiad | | | |
| Bodlonwyd y targed. Ni roddwyd unrhyw ganiatâd cynllunio o fewn gorlifdir C2 na chyflawnodd bob prawf TAN 15 yn ystod y cyfnod monitro hwn. | | | |
| Monitro Perfformiad Polisi | | | |
| O ystyried y data monitro, mae'r Cyngor yn ystyried bod gweithredu Polisiâu MD1, MD4 a MD7 mewn cyfuniad â pholisiâu eraill yn y CDLI wedi galluogi'r Cyngor i gyflawni'r targed monitro. Yn unol â hynny, barn y Cyngor yw bod y polisiâu ar gyfer cyflawni'r targed a nodwyd yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac nad oes achos dros eu hadolygu. | | | |
| Argymhelliad: Dim angen gweithredu ar hyn o bryd; parhau i fonitro mewn AMB'au yn y dyfodol. | | | |

| Dangosydd Monitro Blynyddol | Targed Monitro | Sbardun Monitro | Perfformiad |
|---|--|--|--|
| Cyfeirnod. 2.3 | | | |
| LLEOL: Cyfanswm y capasiti allbwn ynni y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer (MW) ar ddatblygiadau ynni adnewyddadwy annibynnol sy'n fwy na 1MW. | Rhoi caniatadau cynllunio sy'n ddigonol i ateb 10.6% (56.68 GWh) o'r galw a ragamcanir am drydan trwy ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2020. | Methu â rhoi caniatadau cynllunio i ddarparu digon o ynni adnewyddadwy i gyrraedd targedau penodedig o 20% neu fwy. | Ni chymeradwywyd unrhyw ddatblygiadau ynni adnewyddadwy newydd yn ystod cyfnod monitro'r AMB. Fodd bynnag, mae targed monitro 2020 eisoes wedi'i gyflawni o ddechrau cyfnod y Cynllun hyd yma. |

| |
|---|
| Polisiau CDLI perthnasol |
| Polisiau Rheoli Twf / Datblygu: MG27, MD2, MD19. Amcanion AoG: 6. |
| Dadansoddiad |
| Ni roddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy annibynnol >1 MW yn ystod y cyfnod monitro hwn. Fodd bynnag, mae 18 cais cynllunio ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy sy'n cynhyrchu trydan wedi'u cymeradwyo ers dechrau cyfnod y Cynllun sydd, o'u cyfuno, yn cynhyrchu 57.8 GWh (10.8%) o'r galw am drydan a ragwelir trwy ffynonellau ynni adnewyddadwy. Mae hyn ychydig yn uwch na'r targed monitro a nodwyd o 56.68 GWh (10.6% o'r galw am drydan a ragwelir 535 GWh) erbyn 2020 sydd wedi'i gynnwys yn Fframwaith Monitro'r CDLI. |
| Monitro Perfformiad Polisi |
| Cyrhaeddwyd targed monitro 2020 ac felly ystyrir bod polisiau CDLI perthnasol yn gweithio'n effeithiol. |
| Argymhelliad: Dim angen gweithredu ar hyn o bryd; parhau i fonitro mewn AMB'au yn y dyfodol. |

| Dangosydd Monitro Blynyddol | Targed Monitro | Sbardun Monitro | Perfformiad |
|--|---|--|--|
| Cyfeirnod. 2.4 | | | |
| | Cynnal chwiliad ac asesiad safleoedd a sicrhau cymeradwyaeth i'r canfyddiadau gan gynnwys adnabod safle neu safleoedd priodol a sicrhau caniatâd cynllunio ac, os yn briodol, cyllid (gan gynnwys unrhyw arian grant gan Lywodraeth Cymru) ar gyfer y safle dynodedig. | Erbyn diwedd Mai 2018. | <p>Nododd ymchwiliadau cychwynnol safle oddi ar Hayes Rd, Y Barri. Pan gyhoeddwyd y lleoliad, bu cryn wrthwynebiad gan y cyhoedd i'w lleoliad a phenderfynodd y Cyngor beidio â symud y safle yn ei flaen ymhellach.</p> <p>Codwyd pryderon na fyddai anghenion safle penodol Teithwyr Ffordd Hayes yn cael eu diwallu gan safle a ddyluniwyd yn unol â Chanllawiau LIC. Felly mae swyddogion wedi bod yn cysylltu â LIC i adlewyrchu amgylchiadau unigryw anghenion Teithwyr Hayes Rd a cheisio datrys materion yn ymwneud â hynny.</p> <p>Penderfynwyd ym mis Mai 2019, gan y Bwrdd Tai Strategol y bydd proses newydd ar gyfer dewis safle yn cael ei chynnal gyda'r nod o adnabod safle addas a symud ymlaen â'r mater hwn.</p> |
| Polisiau CDLI perthnasol | | | |
| Polisiau Strategol: SP1 Polisiau Rheoli Twf/Datblygu: MD18 | | | |

| |
|---|
| Dadansoddiad |
| Mae 4 o'r 5 targed wedi'u cyflawni fel y nodir uchod. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith hyd yma i gyflawni'r amcan wedi llwyddo i ddarparu safle sipsiwn a theithwyr ac mae'r gwaith yn parhau ar y gweill trwy'r bwrdd tai strategol. |
| Monitro Perfformiad Polisi |
| Argymhelliad: Dim angen gweithredu ar hyn o bryd; parhau i fonitro mewn AMB'au yn y dyfodol. |

| Dangosydd Monitro Blynyddol | Targed Monitro | Sbardun Monitro | Perfformiad |
|--|---|---|--|
| Cyfeirnod. 7.6 | | | |
| LLEOL: Nifer yr anheddau y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer yn flynyddol y tu allan i'r ffiniau aneddiadau dynodedig nad ydynt yn ateb gofynion polisïau'r CDLI neu bolisi cenedlaethol. | Dim anheddau'n cael caniatâd y tu allan i'r ffiniau aneddiadau dynodedig nad ydynt yn ateb gofynion polisïau'r CDLI neu bolisi cenedlaethol. | 1 neu fwy o anheddau wedi cael caniatâd y tu allan i'r ffiniau aneddiadau dynodedig nad ydynt yn ateb gofynion polisïau'r CDLI neu bolisi cenedlaethol mewn unrhyw flwyddyn. | Caniatawyd 1 cais am annedd newydd y tu allan i ffin anheddiad diffiniedig a oedd yn groes i ofynion polisïau'r CDLI/ polisi cenedlaethol. |

Polisïau CDLI perthnasol

Polisïau Strategol: SP1.
Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG1, MD1, MD10, MD11, MD12.
Amcanion AoG: 1, 4, 5, 8, 10, 12.

Dadansoddiad

Rhwng 1af Ebrill 2018 a 31ain Mawrth 2019, cymeradwyodd y Cyngor 28 o anheddau newydd a oedd wedi eu lleoli y tu allan i ffin anheddiad diffiniedig fel y nodir yn y CDLI mabwysiedig. Ac eithrio un (cyf: 2018/00996/ FUL), barnwyd eu bod i gyd yn unol â pholisïau'r CDLI a pholisi cenedlaethol. O ran cais cynllunio 2018/00996/FUL, cymeradwywyd y cais hwn gan aelodau'r pwyllgor cynllunio yn erbyn argymhelliad swyddogion ar ôl ystyried gwahanol sylwadau ac anghenion yr ymgeisydd.

| Rhif cais | Math | Disgrifiad o'r Cais |
|----------------|-----------------|---|
| 2016/00571/FUL | Bach – Anheddau | Trosi dwy uned amaethyddol yn llety gwyliau |
| 2017/00159/FUL | Bach – Anheddau | Estyniad arfaethedig a throsi gosod gwyliau i lety'r rheolwr. |
| 2017/01269/FUL | Bach – Anheddau | Trosi rhan o'r prif adeilad presennol yn llety Rheolwr (Annedd Menter Wledig). Adeilad newydd arfaethedig ger y prif adeilad fel cyfleusterau amwynder ychwanegol a chodi ffens 2.0 m o uchder ar hyd y ffin orllewinol. |
| 2017/01354/FUL | Bach – Anheddau | Adferiad arfaethedig o'r ffermdy presennol (Trysor y Sir) i'w ddefnyddio fel llety gwyliau hunanarlwyo. |
| 2018/00041/FUL | Bach – Anheddau | Codi Annedd Gweithiwr Menter Wledig. |
| 2018/00100/RES | Bach – Anheddau | Cais am Faterion Neilltuedig ar gyfer annedd gweithwyr fferm yn Bryn Farm, Pont Sarn Lane, Clawddcoch (2017/00339/OUT). |
| 2018/00133/FUL | Mawr – Anheddau | Dymchwel dau fyngalo tair ystafell wely a garejys unllawr (1 a 10 Parc Wood) sy'n gwasanaethu'r rhieni tŷ, clirio'r ddau safle. Datblygu dau floc ystafelloedd cysgu myfyrwyr newydd ar uchder deulawr, pob un yn cynnwys 12 x uned ystafell gysgu â 4 gwely, lleoedd cymunedol a rennir a dau fflat 3 ystafell wely i'r rhieni tŷ. Tirlunio allanol arfaethedig i'r ddau adeilad i fod yn fach iawn ac i ategu amgylchedd naturiol y ddau safle. |
| 2018/00253/FUL | Bach – Anheddau | Annedd menter amaethyddol i Reolwr Hyfforddi Cynorthwyol y fenter rasio ceffylau (Ailgyflwyno cyn pen 12 mis ar ôl cais a dynnwyd yn ôl). |

| | | |
|----------------|--------------------------------|---|
| 2018/00330/FUL | Bach – Anheddau | Adnewyddu caniatâd cynllunio ar gyfer defnyddio tir i leoli carafân (gyda charafân deithiol) at ddibenion preswyl i un llain Sipsiwn ynghyd ag arwyneb caled ac ystafell olchi/ ystafell ddydd ychwanegol. |
| 2018/00380/FUL | Amrywiad ar amod | Cadw'r annedd y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddi'n wreiddiol ar 18 Mawrth, 2005 (Cyf 04/01935/ FUL) heb gydymffurfio ag amod 1 a osodwyd ar y caniatâd hwnnw, fel y'i hamrywiwyd gan yr amod diwygiedig yn ddarostyngedig i ganiatâd cynllunio 2014/00505/FUL, dyddiedig 2 Gorffennaf 2014. |
| 2018/00392/FUL | Bach – Anheddau | Codi tŷ annedd newydd gyda gwaith cysylltiedig a threfniadau mynediad. |
| 2018/00395/FUL | Bach – Anheddau | Dymchwel eiddo presennol a rhoi annedd newydd yn ei le. |
| 2018/00460/FUL | Bach – Prif ddefnyddiau eraill | Gwnaethpwyd cais am yr holl faterion a gadwyd yn ôl (2017/00668/OUT): annedd gweithiwr menter wledig). |
| 2018/00468/FUL | Bach – Prif ddefnyddiau eraill | Yn ôl-weithredol, codi llety gwyliau |
| 2018/00470/FUL | Amrywiad ar amod | Amrywiad ar Amod 1 caniatâd CR/15363/B o eiriad gwreiddiol i TAN 6 Amod Menter Wledig. Dileu Amod 2 i gyd-fynd â'r uchod. |
| 2018/00486/FUL | Bach – Anheddau | Annedd amnewidiol arfaethedig. |
| 2018/00559/FUL | Bach – Anheddau | Trosi ysguboriau presennol yn 4 llety gwyliau gyda pharcio cysylltiedig a gwaith ategol. |
| 2018/00643/FUL | Bach – Anheddau | Dymchwel arfaethedig annedd bresennol ac adeiladu annedd newydd ar wahân. |
| 2018/00716/FUL | Amrywiad ar amod | Dileu amod 2 y caniatâd cynllunio CR/7365 (1961) yn gysylltiedig ag amod meddiannaeth amaethyddol i'r annedd. |
| 2018/00756/FUL | Bach – Anheddau | Adnewyddu ysgubor garreg segur yn lety gwyliau 3 ystafell wely gyda maes parcio a gerddi cyfagos. |
| 2018/00774/FUL | Bach – Anheddau | Amnewid annedd eiddo a ddifrodwyd gan dân. Diwygiad i ganiatâd blaenorol 2017/00241/FUL. |
| 2018/00808/FUL | Bach – Anheddau | Trosi adeilad allanol amaethyddol unllawr segur yn llety byw 2 wely, ategol i'r prif annedd.. |
| 2018/00923/OUT | Bach – Anheddau | Codi annedd gweithiwr gwledig, draeniad bio-ddisg. |
| 2018/00965/FUL | Bach – Anheddau | Annedd newydd. |
| 2018/00967/FUL | Bach – Anheddau | Trosi dau eiddo pâr yn eiddo sengl a chodi byngalo eithriadau gwledig cynaliadwy (ynni-bositif), mynediad newydd a gwaith cysylltiedig. |
| 2018/00996/FUL | Bach – Anheddau | Dymchwel arfaethedig ysgubor amaethyddol a chytiau allanol. Cais am annedd newydd gyda garej ar wahân ac ystafell hobiau uwchben. |
| 2018/01231/FUL | Mawr – Anheddau | Datblygiad defnydd cymysg preswyl yn cynnwys 13 cartref fforddiadwy, 2 adeilad swyddfa ychwanegol, adeilad cymunedol a datblygiad ategol gan gynnwys tirlunio, draenio, parcio ceir, creu mynediad newydd i gerbydau a seilwaith cysylltiedig arall. |
| 2018/01355/FUL | Bach - anheddau | Annedd amnewidiol arfaethedig. |

Yng nghyswllt cais cynllunio 2018/00996/FUL, cymeradwywyd y cais hwn gan aelodau'r pwyllgor cynllunio yn groes i argymhelliad swyddogion ar ôl ystyried gwahanol sylwadau ac anghenion yr ymgeisydd.

Monitro Perfformiad Polisi

Er bod y sbardun monitro ar gyfer y dangosydd wedi'i gyrraedd mewn perthynas â rhif cais 2018/00996/FUL, ystyrir bod cymhwysiad y polisi ac argymhelliad cychwynnol y swyddog wedi bod yn unol ag amcanion y polisi. Er bod barn yr aelodau yn cydymdeimlo â gofynion penodol yr ymgeiswyr, yr ystyriwyd eu bod yn gorbwysu'r amcanion polisi cyffredinol, ystyrir nad yw hyn yn ddiffyg cynhenid yn y polisi a fabwysiadwyd. O ystyried y data monitro, mae'r Cyngor o'r farn nad oes achos i'w adolygu ond argymhellir cynnal hyfforddiant aelodau mewn perthynas â'r polisi hwn.

Argymhelliad:

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd heblaw am ragor o hyfforddiant i Aelodau; parhau i fonitro mewn AMB'au yn y dyfodol.

| Dangosydd Monitro Blynyddol | Targed Monitro | Sbardun Monitro | Perfformiad |
|---|---|---|--|
| Cyfeirnod. 7.7 | | | |
| LLEOL: Cyfanswm yr anheddau a gwblhawyd ar safleoedd tai strategol fel a nodir ym mholisiau dyrannu safleoedd MG2 ac MG3. | 1. Erbyn 2020 Cyflenwi: Polisi MG2 (4) Safle'r Hen Stadiwm / Tir ar bwys Burley Place, Sain Tathan erbyn 2022. | Methu â chyflawni safleoedd tai strategol erbyn y dyddiadau yn y targed monitro. | Ni chyflwynwyd cais cynllunio cyfredol ar gyfer safle MG2 (4). Cyflenwad y safle y tu allan i'r cyfnod monitro cyfredol. |
| | 2. Erbyn 2025 Cyflenwi: Polisi MG2 (2) Tir ym Mhen Uchaf, Sain Tathan a Pholisi MG2 (6) Tir ar bwys Fferm Froglands, Llanilltud Fawr. | Methu â chyflawni safleoedd tai strategol erbyn y dyddiadau yn y targed monitro. | Cam 1 MG2 (2) Tir ym Mhen Uchaf Sain Tathan (120 o anheddau) – cwblhawyd yn 2017. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd cais cynllunio yn cael ei gyflwyno yn 2019/20 ar gyfer Tir MG2 (6) ger Fferm Froglands, Llanilltud Fawr. |
| | Erbyn 2026 Cyflenwi: Polisi MG2 (1), Polisi MG3, Cam 2, Glannau'r Barri. | Methu â chyflawni safleoedd tai strategol erbyn y dyddiadau yn y targed monitro. | Rhwng 2011 a 2019 rhoddwyd caniatâd i 1,262 o anheddau ar Gam 2 Glannau'r Barri, ac adeiladwyd 871. |
| | Erbyn 2026 Cyflenwi: Polisi MG2 (3) Tir yn Church Farm, Sain Tathan. | Methu â chyflawni safleoedd tai strategol erbyn y dyddiadau yn y targed monitro. | Ni chyflwynwyd cais cynllunio cyfredol ar gyfer safle MG2 (3). Mae cyflenwad y safle y tu allan i'r cyfnod monitro cyfredol. |
| | Erbyn 2026 Cyflenwi: Polisi MG2 (5) Tir i'r dwyrain o Eglwys Brewis, Sain Tathan. | Methu â chyflawni safleoedd tai strategol erbyn y dyddiadau yn y targed monitro. | MG2 (5) Tir i'r dwyrain o Eglwys Brewis, Sain Tathan, rhoddwyd caniatâd amlinellol yn destun i gytundeb A106. |
| | Erbyn 2026 Cyflenwi: Polisi MG2 (7) Tir rhwng y Ffordd Fynediad Ogleddol newydd a Heol Eglwys Brewis, Llanilltud Fawr. | Methu â chyflawni safleoedd tai strategol erbyn y dyddiadau yn y targed monitro. | Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd cais cynllunio yn cael ei gyflwyno yn 2019/20 ar gyfer Tir MG2 (7) rhwng Ffordd Fynediad y Gogledd newydd a Ffordd Eglwys Brewis, Llanilltud Fawr. Mae cyflenwad y safle y tu allan i'r cyfnod monitro cyfredol. |
| | Polisiau CDLI perthnasol | | |
| Polisiau Strategol: SP1, SP2, SP3, SP4. Polisiau Rheoli Twf/Datblygu: MG1, MG2, MG3, MG4, MD1, MD4, MD6. Amcanion AoG: 1, 3, 4, 5, 8, 10, 12. | | | |

| |
|---|
| Dadansoddiad |
| Dylid nodi bod pob un o'r dangosyddion fframwaith monitro y tu allan i'r cyfnod monitro cyfredol. Er gwaethaf hyn, gwnaed cynnydd sylweddol ar nifer o'r safleoedd tai a nodwyd yn y targedau monitro ac mae cwblhad tai sylweddol eisoes wedi digwydd. At hynny, ar safleoedd eraill a nodwyd, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud ar seilwaith hanfodol sy'n ofynnol ar gyfer darparu safleoedd eraill a gynhwyswyd yn y targedau monitro e.e. Ffordd Fynediad y Gogledd. |
| Monitro Perfformiad Polisi |
| O ystyried y data monitro, mae'r Cyngor yn ystyried bod bod Polisiâu MG 2 ac MG 3 ynghyd â pholisiâu CDLI perthnasol eraill yn gweithio'n effeithiol ac nad oes achos dros eu hadolygu. |
| Argymhelliad: Dim angen gweithredu ar hyn o bryd; parhau i fonitro mewn AMB'au yn y dyfodol. |

| Dangosydd Monitro Blynyddol | Targed Monitro | Sbardun Monitro | Perfformiad |
|--|---|--|--|
| Cyfeirnod. 7.8 | | | |
| LLEOL: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â Thai Fforddiadwy | Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy o fewn un flwyddyn i fabwysiadu'r Cynllun. | Methu â pharatoi Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy o fewn un flwyddyn i fabwysiadu'r Cynllun. | Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy wedi eu mabwysiadu yng Ngorffennaf 2017. |
| Polisiâu CDLI perthnasol | | | |
| Polisiâu Strategol: SP1, SP4. Polisiâu Rheoli Twf/ Datblygu: MG1, MG2, MG3, MG4, MD1, MD4, MD5, MD6, MD10. Amcanion AoG: 1, 3, 4, 8, 10, 12. | | | |
| Dadansoddiad | | | |
| Bodlonwyd y targed monitro. Cymeradwywyd y CCA gan y Cabinet ar 31 ^{ain} Gorffennaf 2017 (cofnod rhif C48) ac mae'r CCA wedi cael ei ystyried ym mhob cais cynllunio perthnasol ers y dyddiad hwnnw. O ystyried hyn, nid oes angen parhau i fonitro'r dangosydd hwn ond bydd y Cyngor yn parhau i asesu effeithiolrwydd y CCA a'i ddiweddarau os bydd angen. | | | |
| Monitro Perfformiad Polisi | | | |
| Y dangosydd monitro i'w ddileu o AMB'au dilynol | | | |

| 8. ECONOMI | | | |
|--|---|--|---|
| Newidiadau cyd-destunol: Cyfeirir at adran 3 o'r AMB hwn. Darperir diweddariadau mewn AMB'au yn y dyfodol. | | | |
| AMCAN 8: Meithrin datblygiad economi leol amrywiol a chynaliadwy sy'n diwallu anghenion Bro Morgannwg a Rhanbarth ehangach De Ddwyrain Cymru. | | | |
| Dangosydd Monitro Blynyddol | Targed Monitro | Sbardun Monitro | Perfformiad |
| Cyfeirnod. 8.1 | | | |
| LLEOL: Cyfanswm y datblygiadau cyflogaeth strategol a ganiatwyd ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu dan Bolisi MG9(ha). | 31 ha (net) o dir cyflogaeth strategol gyda chaniatadau cynllunio wedi'u sicrhau erbyn 2018. | 10% yn llai na'r targed ar gyfer tir cyflogaeth strategol erbyn y dyddiad targed. | Yn 2018 roedd y Cyngor wedi cymeradwyo 34.78 ha o dir cyflogaeth ar safleoedd strategol fel y nodwyd ym Mholisi MG2 y CDLI. |
| Polisiâu CDLI perthnasol | | | |
| Polisiâu Strategol: SP1, SP2, SP5. Polisiâu Rheoli Twf / Datblygu: MG9, MG10, MG11, MD14, MD15, MD16. | | | |

Amcanion AoG: 2, 4, 8, 10, 12, 13.

Dadansoddiad

Erbyn 2018 roedd y Cyngor wedi cymeradwyo 34.78 ha o dir cyflogaeth ar safleoedd strategol fel y nodwyd ym Mholisi MG2 y CDLI, sy'n uwch na'r targed monitro tir cyflogaeth strategol a nodwyd. Sicrhawyd hyn ar y dyraniad y cyfeirir ato fel y tir i'r de o gyffordd 34, M4, Hensol fel y manylir isod:

| Cyfeirnod y Cais | Disgrifiad |
|------------------|--|
| 2014/00228/EAO | Tir i'r de o Gyffordd 34, M4, Hensol - Caniatâd cynllunio amlinellol gyda'r holl faterion wedi'u cadw'n ôl ac eithrio mynediad, ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys defnyddiau dosbarth B1, B2 a B8; canolfan hyfforddi gwestai/ preswyl (dosbarth C1/C2); a defnyddiau ategol yn nosbarth A1, A2, A3; gwaith peirianeg cysylltiedig a modelu daear a seilwaith, parcio ceir, draenio a mynediad at bob defnydd; darparu seilwaith (gan gynnwys canolfan(nau) ynni); tirlunio a'r holl waith galluogi ategol (rhoddwyd caniatâd 22/06/2016 – ardal cyflogaeth yn 34.78 ha). |

Dylid nodi bod y Cyngor ar hyn o bryd yn ystyried cais amlinellol (2019/00871/OUT) ar gyfer rhan ddeheuol y dyraniad cyflogaeth strategol y cyfeirir ato fel tir ger maes awyr Caerdydd a Port Road, Y Rhws. Bydd y datblygiad arfaethedig hwn yn darparu 161834 metr sgwâr o ddosbarth B1, B2 a B8 ar y safle 44ha os caiff ei gymeradwyo. Bydd gweddill yr ardal ddatblygadwy yn cael ei defnyddio gyda seilwaith, parcio, tirlunio ayb. Darperir diweddariad ar statws y cais cynllunio hwn yn 2il AMB y Cyngor.

Yn ogystal, rhoddwyd y caniatâd cynllunio canlynol ar gyfer defnydd cyflogaeth ar safle Cyflogaeth Strategol Parc Busnes Awyrofod ond nid yw wedi'i gynnwys yn y fframwaith monitro mabwysiedig gan ei fod yn rhan o'r safle cyflogaeth presennol. Serch hynny, mae'n dangos y gweithgaredd datblygu parhaus ar y safle cyflogaeth strategol a nodwyd:

| Cyfeirnod y Cais | Disgrifiad |
|------------------|---|
| 2016/00617/LAW | Sied Awyrennau Fawr, Parc Busnes Awyrofod, Sain Tathan- Defnydd arfaethedig gan Aston Martin Lagonda Limited ar gyfer prif ddefnydd i gynhyrchu a chydodod ceir modur (Dosbarth B2), gyda defnyddiau ategol ar gyfer storio/ dosbarthu. |

Monitro Perfformiad Polisi

Bodlonwyd y targed monitro. Yn wyneb yr uchod, mae'r Cyngor o'r farn bod Polisi MG 9 ynghyd â pholisïau perthnasol eraill y CDLI yn gweithio'n effeithiol ac nad oes achos dros eu hadolygu.

Argymhelliad:

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd; parhau i fonitro mewn AMB'au yn y dyfodol.

| Dangosydd Monitro Blynyddol | Targed Monitro | Sbardun Monitro | Perfformiad |
|--|---|---|--|
| Cyfeirnod. 8.2 | | | |
| LLEOL: Nifer y swyddi a ragwelir ar safleoedd cyflogaeth strategol sydd wedi cael caniatâd. | Targedau Safleoedd Cyflogaeth Strategol Cyffredinol Rhagwelir 920 – 1,120 o swyddi ar safleoedd cyflogaeth strategol sydd wedi cael caniatâd erbyn 2020. | 10% yn llai na nifer y swyddi a ragwelid ar safleoedd cyflogaeth strategol erbyn y dyddiad targed. | Mae'r targed monitro y tu allan i amserlen yr AMB cyffredol. |

| |
|---|
| Polisiâu CDLI perthnasol |
| Polisiâu Strategol: SP1, SP2, SP5. Polisiâu Rheoli Twf / Datblygu: MG9, MG10, MG11, MD14, MD15, MD16. Amcanion AoG: 2, 4, 8, 10, 12, 13. |
| Dadansoddiad |
| Er bod y targed monitro y tu allan i'r AMB cyfredol, mae'r safleoedd strategol y manylir arnynt yn y CDLI yn parhau i ddatblygu fel a ganlyn: Tir i'r de o Gyffordd 34 M4 Hensol –Mae'r wybodaeth ategol i'r cais cynllunio (2014/00228/EAO) yn amcangyfrif y gallai safle'r cais gynhyrchu rhwng 2,555 a 3,069 o swyddi gyda 750 o swyddi eraill yn deillio o'r cynnydd yng ngweithrediadau'r cyfleuster safle presennol. Tir ar bwys Maes Awyr Caerdydd a Port Road (Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd) – Mae'r Cyngor yn ystyried cais amlinellol ar hyn o bryd (2019/00871OUT). Noda'r ffurflen gais y gallai'r safle ddarparu hyd at 2,000 o swyddi medrus (gan gynnwys prentisiaethau) pan fydd yn gwbl weithredol gyda swyddi pellach yn cael eu darparu yn ystod camau adeiladu'r datblygiad..Mae'r Cyngor mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Maes Awyr Caerdydd wedi paratoi CCA drafft a fydd yn arwain datblygiad ar draws Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd. Ar hyn o bryd mae'r CCA yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a rhagwelir y bydd yn cael ei fabwysiadu yn yr Hydref. Parc Busnes Awyrfod, Sain Tathan - cyhoeddwyd y byddai hen safle 90 erw y Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan yn derbyn ail ffatri'r DU ar gyfer Aston Martin Lagonda yn 2016. Ers hynny, mae'r safle, gan gynnwys tair 'Sied Awyrennau Fawr', wedi cael ei drawsnewid yn gyfleuster gweithgynhyrchu modern. Mae'r wefan yn dangos buddsoddiad parhaus Aston Martin yn y DU ac mae agor cyfleuster Sain Tathan hyd yma wedi creu 200 o swyddi a disgwylir iddo greu hyd at 550 yn fwy gyda 3,000 o swyddi ychwanegol yn debygol o gael eu creu ar draws y gadwyn gyflenwi a busnesau lleol. (<i>Datganiad i'r wasg gan Aston Martin 12^{fed} Mehefin 2019</i> https://media.astonmartin.com/aston-martin-produces-first-cars-at-st-athan/). |
| Monitro Perfformiad Polisi |
| Dim targed monitro i'r AMB cyfredol. Argymhelliad: Dim angen gweithredu ar hyn o bryd; parhau i fonitro mewn AMB'au yn y dyfodol. |

| Dangosydd Monitro Blyneddol | Targed Monitro | Sbardun Monitro | Perfformiad |
|--|--|---|---|
| Cyfeirnod. 8.3 | | | |
| LLEOL: Cyfanswm y datblygiadau y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer yn unol â Pholisi MD14 ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu dan Bolisi MG9 (ha). | 2.65 ha o dir cyflogaeth leol wedi'i ddatblygu y flwyddyn am y blynyddoedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun. | 10% yn llai na'r targed o ran tir cyflogaeth leol net dros 2 flynedd olynol. | Caniatawyd 2.13 ha o ddatblygiad cyflogaeth dros y cyfnod 2017 i 2019. |
| Polisiâu CDLI perthnasol | | | |
| Polisiâu Strategol: SP1, SP5. Polisiâu Rheoli Twf/Datblygu: MG9, MD14, MD15, MD16. Amcanion AoG: 2, 4, 8, 10, 12, 13. | | | |
| Dadansoddiad | | | |
| Lleoliad | Manylion | | Arwynebedd (ha) |

| | | |
|------------------------|--|--------|
| Hayes Lane, Sili | 2018/01317/FUL - Spider Camp, Hayes Lane, Sili - Adeiladu chwe adeilad ffrâm porth a ffyrdd cysylltiedig, rhannu adeiladau i ffurfio 43 o unedau diwydiannol ysgafn. Cymeradwywyd 3/4/19 yn destun i gytundeb cyfreithiol. | 1.4 ha |
| Ystad Masnach Atlantic | 2017/00316/FUL Plot 3B, Atlantic Gate, Ystad Masnach Atlantic, Hayes Road, Y Barri- Adeiladu uned fasnach ysgafn unllawr, wedi'i rhannu'n 4 uned ar wahân. Cymeradwywyd 6/6/18 yn destun i gytundeb cyfreithiol | 0.73ha |
| | Cyfanswm | 2.13ha |

At ddibenion yr AMB hwn mae'r Cyngor yn ystyried y cyfnod 2017 i 2019. Dros y cyfnod hwn, cymeradwywyd 2.13ha o dir cyflogaeth ar y safleoedd a ddyrannwyd i MG9 fel y dangosir yn y tabl uchod. Mae hyn yn is na'r targed 2 flynedd o 5.3 ha. Mae'r sbardun monitro hefyd wedi'i gyrraedd, gan ei fod dros 10% yn is na'r targed. Mae'n ymddangos bod y nifer sy'n manteisio ar safleoedd cyflogaeth lleol ym Mro Morgannwg wedi arafu yn ystod y blynyddoedd diwethaf - ystyrir fod hyn yn gysylltiedig â'r hinsawdd economaidd sydd ohoni. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â'r mater hwn.

Monitro Perfformiad Polisi

Argymhelliad:

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd; parhau i fonitro mewn AMB'au yn y dyfodol.

| Dangosydd Monitro Blynyddol | Targed Monitro | Sbardun Monitro | Perfformiad |
|---|---|---|---|
| Cyfeirnod. 8.4 | | | |
| LLEOL: Faint o dir cyflogaeth presennol neu ddyraniadau dan Bolisi MG9 a gollwyd i ddefnyddiau heblaw dosbarth B. | Dim safleoedd cyflogaeth presennol na safleoedd cyflogaeth sydd wedi'u dyrannu wedi cael eu colli i ddefnyddiau heblaw dosbarth B oni bai bod hynny yn unol â Pholisi MD15 neu MD16. | 1 neu fwy o ganiatadau cynllunio wedi cael eu rhoi gan arwain at golli tir cyflogaeth i ddefnyddiau heblaw dosbarth B yn groes i bolisiau MD15 neu MD16. | Cymeradwywyd 12 cais cynllunio mewn eiddo cyflogaeth presennol yn y Barri. Dim ond 1 o'r rhain a ystyriwyd yn groes i Bolidi MD16 (2018/01108/FUL). |
| Polisiau CDLI perthnasol | | | |
| Polisiau Strategol: SP1, SP2, SP5. Polisiau Rheoli Twf / Datblygu: MG3, MG9, MG10, MG11, MD1, MD14, MD15, MD16. Amcanion AoG: 2, 3, 4, 8, 10, 12, 13. | | | |
| Dadansoddiad | | | |
| Mae'r tabl canlynol yn dangos y 12 cais a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod monitro AMB a oedd yn ymwneud â cholli tir cyflogaeth presennol neu ddyraniadau MG9 i ddefnyddiau nad ydynt yn ddosbarth B. | | | |
| Rhif cais | Math | Lleoliad | Disgrifiad |
| 2018/00260/FUL | Bach-Anheddau | 36, Windsor Terrace, Penarth. | Trosi llawr cyntaf ac ail lawr o'r Swyddfa i ddefnydd cymysg: Swyddfa ac annedd C3 sengl. |
| 2018/00562/FUL | Bach-Anheddau | Romilly Independent Financial Planning, 26, Hickman Road, Penarth. | Newid Defnydd rhan o'r adeilad presennol o wasanaethau Masnachol/ Ariannol i lety preswyl gydag estyniad Llawr Gwaelod i'r adeilad presennol. |
| 2018/00732/FUL | Bach-Anheddau | 2, Beryl Road, Y Barri. | Isrannu a Newid Defnydd i Ffur Tri Fflat Dwy Ystafell Wely Hunangynhwysol (Tai Annedd Dosbarth C3) a Newidiadau Cysylltiedig. |

| | | | |
|----------------|---------------|--|---|
| 2018/00876/FUL | Bach-B1/B2/B8 | British Airways Maintenance Cardiff (BAMC), Dragonfly Drive, Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd. | Codi estyniad unllawr newydd i weithdy eroffoil a gweithdy offer a storfa rig symudol unllawr newydd ei hadeiladu. |
| 2018/00925/FUL | Bach-Anheddau | Hamilton House, 123, Broad Street, Y Barri. | Newid Defnydd swyddfa bresennol yn chwe fflat fforddiadwy a gwaith cysylltiedig. |
| 2018/01108/FUL | Mawr-Anheddau | Tir yn Subway Road, Y Barri. | Dymchwel adeiladau presennol a chodi 72 o unedau tai fforddiadwy, storfa beiciau, storfa wastraff, maes parcio lefel wyneb daear a gwaith cysylltiedig |
| 2018/01127/FUL | Deiliad tŷ | 32, Robert Street, Y Barri. | Estyniad ochr deulawr ac estyniad cefn ar y llawr gwaelod. |
| 2018/01229/FUL | Bach-Arall | Unit 6, Cos - The Complete Office Solution, Stâd Ddiwydiannol Tŷ Verlon, Y Barri. | Newid Defnydd eiddo i Adeiladwr Masnachol, iard storio allanol, estyniad blaen unllawr ac estyniad deulawr yn y cefn. |
| 2018/01267/FUL | Bach-Arall | Storfa yng nghefn 12-14, Railway Terrace, Penarth. | Newid Defnydd o Iard Storio a Dosbarthu Adeiladwyr gyda swyddfa ar wahân i gliinig Ffisiotherapi Dosbarth D1 a stiwdio Pilates Dosbarth D2, ynghyd â newidiadau allanol. |
| 2018/01329/FUL | Bach-Arall | New Broad Street Motors, Stâd Ddiwydiannol Tŷ Verlon, Y Barri. | Rhannu uned bresennol gyda newidiadau i agoriadau ffenestri a drysau. |
| 2018/01358/FUL | Mawr-Anheddau | Y Sied Nwyddau, Hood Road, Y Barri. | Newid defnydd, trosi ac addasiadau i'r Siediau Nwyddau i ddarparu cynllun defnydd cymysg sy'n cynnwys 11 uned gwaith byw, bwyty, hyb technoleg/ gweithdy cymunedol a gofod digwyddiadau hyblyg, codi unedau busnes deori entrepreneuriaidd nad ydynt yn fwy na 68 uned (cynwysyddion cludo wedi'u trosi), siop goffi gyrru-drwodd, sinema awyr agored, marchnad ffermwyr/ ardal bwyd stryd dros-dro, maes chwarae i blant, trefniadau mynediad a gwasanaethu, parcio ceir a gwaith cysylltiedig |
| 2019/00114/FUL | Bach-Arall | Swit 3, 5 ac Ystafell Gyfarfod, The Stables, Castleland Street, Y Barri. | Newid Defnydd i Feithrinfa Plant (12 Plant fel uchafswm) yn Ystafell Gyfarfod Ystafell 5B a 3B - Dim Newidiadau i strwythur yr adeilad. |

Er yr ystyriwyd bod 1 cais yn groes i Bolisi MD16 y CDLI - amddiffyn Safleoedd Cyflogaeth ac Eiddo Presennol, darparodd y cais (2018/01108/ FUL) 72 o dai fforddiadwy yn y Barri, ardal o angen tai cydnabyddedig. Yn hyn o beth, ystyriwyd bod y buddion sy'n deillio o'r cynllun mewn perthynas â darpariaeth tai fforddiadwy yn gorbwyso colli'r elfen fach o ddefnydd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â'r safle. Yn ogystal, mae'r Cyngor wrthi'n paratoi CCA newydd ar ddiogelw tir ac adeiladau cyflogaeth a fydd yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â Pholisi MD16.

Monitro Perfformiad Polisi

Er yr aethpwyd dros ben y sbardun, ystyriwyd bod y buddion sy'n deillio o golli'r safle cyflogaeth presennol yn Subway Road yn ymdrin ag angen mwy dybryd am dai fforddiadwy yn y Barri ac yn cyfrannu at amcanion eraill y Cynllun. Dylid nodi bod y Cyngor yn bwriadu paratoi CCA tir cyflogaeth ac eiddo newydd i ddarparu eglurder pellach mewn perthynas â dehongli Polisi MD16.

Argymhelliad:

Y Cyngor i baratoi CCA tir cyflogaeth ac eiddo newydd a pharhau i fonitro dangosydd mewn AMB'au yn y dyfodol.

| Dangosydd Monitro Blynyddol | Targed Monitro | Sbardun Monitro | Perfformiad |
|--|----------------------------|--|--|
| Cyfeirnod 8.5 | | | |
| LLEOL: Mabwysiadu Fframwaith Datblygu Strategol | Ymgynghori ynghylch | Methu ag ymgynghori ynghylch Fframwaith | Paratowyd Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft ar |

| | | | |
|---|--|--|---|
| <p>Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd - Sain Tathan fel briff datblygu.</p> | <p>Fframwaith Datblygu Strategol drafft Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan o fewn un flwyddyn i fabwysiadu'r Cynllun</p> | <p>Datblygu Strategol drafft Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan o fewn un flwyddyn i fabwysiadu'r Cynllun.</p> | <p>Faes Awyr Caerdydd a Pharth Datblygu'r Porth i'r Cabinet ar 29^{ain} Gorffennaf 2019 i'w gymeradwyo i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd y cyfnod ymgynghori yn dod o 19^{eg} Awst i 2^{il} Hydref 2019. Disgwylir i'r mabwysiadu ffurfiol ddigwydd yn Hydref 2019.</p> |
| <p>Polisiau CDLI perthnasol</p> | | | |
| <p>Polisiau Strategol: SP1, SP2, SP5. Polisiau Rheoli Twf / Datblygu: MG9, MG10, MD14, MD15, MD16. Amcanion AoG: 2, 3, 4, 8, 10, 12, 13.</p> | | | |
| <p>Dadansoddiad</p> | | | |
| <p>Ni fabwysiadwyd Fframwaith Datblygu Strategol Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd - Sain Tathan gan y Cyngor gan ei fod wedi mynd yn hen ffasiwn, ac roedd Maes Awyr Caerdydd yn paratoi uwchgynllun a gyhoeddwyd yn Haf 2019. Nid oedd Uwchgynllun Maes Awyr Caerdydd yn cael ei ystyried yn addas i'w fabwysiadu fel CCA felly penderfynodd y Cyngor baratoi ei CCA ei hun mewn perthynas â'r Maes Awyr a dyraniad cyflogaeth strategol cyfagos i arwain datblygiad y safle. Adroddwyd ar y CCA drafft i'r cabinet ar 29^{ain} Gorffennaf 2019 i'w gymeradwyo i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod mis Awst a mis Medi 2019. Rhagwelir y bydd y CCA yn cael ei adrodd yn ôl i'r Cabinet i'w fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor ym mis Tachwedd 2019.</p> | | | |
| <p>Monitro Perfformiad Polisi</p> | | | |
| <p>Mae'r dangosydd monitro a nodwyd wedi'i ddisodli fel y nodwyd uchod. Bydd diweddariad ar statws CCA Maes Awyr Caerdydd a Parth Datblygu Porth yn cael ei ddarparu yn 2il AMB y Cyngor.</p> <p>Argymhelliad:</p> <p>Dim angen gweithredu ar hyn o bryd; parhau i fonitro mewn AMB'au yn y dyfodol.</p> | | | |

9. TWRISTIAETH

Newidiadau cyd-destunol: Cyfeirir at adran 3 o'r AMB hwn. Darperir diweddariadau mewn AMB'au yn y dyfodol.

AMCAN 9: Creu cyrchfan twristiaeth deniadol gyda delwedd gadarnhaol ar gyfer Bro Morgannwg, gan roi anogaeth ar gyfer datblygu cynaliadwy a chyfleusterau o ansawdd i gyfoethogi'r profiad ar gyfer ymwelwyr a thrigolion.

| Dangosydd Monitro Blynyddol | Targed Monitro | Sbardun Monitro | Perfformiad |
|---|--|---|---|
| Cyfeirnod. 9.1 | | | |
| <p>LLEOL: Darparu cyfleusterau twristiaeth newydd a gwell a nodir ym Mholisi MG29.</p> | <p>Cyflenwi Polisi MG29 (1) erbyn 2018.</p> | <p>Methu â chyflawni'r cyfleusterau twristiaeth newydd a gwell a nodir ym Mholisi MG29 yn unol â'r targedau monitro.</p> | <p>Mae safle MG29 (1) wedi'i gaffael gan berchennog newydd sy'n ceisio datblygu'r cynnig twristiaeth.</p> |
| | <p>Cyflenwi Polisi MG29 (2) erbyn 2022.</p> | | <p>Mae'r targed monitro y tu allan i amserlen yr AMB cyfredol.</p> |

| | | | |
|--|---|--|---|
| | Cyflenwi Polisi MG29 (3) erbyn 2026. | | Mae'r targed monitro y tu allan i amserlen yr AMB cyfredol. |
| Polisiau CDLI perthnasol | | | |
| Polisiau Strategol: SP1, SP11. Rheoli Twf/ Datblygu: MG29, MD13. Amcanion AoG: 2, 3, 5, 8, 10, 11, 12, 13, 15. | | | |
| Dadansoddiad | | | |
| MG 29 (1): Parc Pleser Y Barri, White Bay – mae'r dyraniad yn cynnwys cyfeiriad at ailddatblygu Parc Pleser y Barri i ddarparu cyfleuster twristiaeth pob tywydd yn seiliedig ar ddiddordeb datblygu a fynegwyd wrth baratoi'r CDLI. Fodd bynnag, ers mabwysiadu'r CDLI, mae perchennog newydd wedi caffael y safle, ac mae wedi ymrwmo buddsoddiad sylweddol i'r safle er mwyn ailsefydlu'r ffair fel atyniad twristaidd mawr yn Ne Cymru, gan gynnwys cyfleusterau bob tywydd. | | | |
| MG29 (2): Tir yn Nells Point, Bae Whitmore – Yn dilyn yr ymdrechion marchnata traddodiadol blaenorol, mae'r Cyngor yn adolygu ei ddull o ymdrin â'r dulliau y gallai buddsoddwyr gael eu hannog i ddatblygu'r safle a rhagwelir y gellid mynd ar drywydd opsiynau dros y cyfnod 2019-20. | | | |
| MG29 (3): Tir yng Nghwrs Golff Parc Cottrell – Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. | | | |
| Monitro Perfformiad Polisi | | | |
| Er na fodlonwyd y targed monitro ar gyfer MG29 (1), cafwyd budsoddiad gan y perchennog presennol ym Mharc Pleser y Barri. O ystyried hyn, ystyrir y dylid parhau i fonitro'r dangosydd ac nid oes achos oes achos dros ei adolygu ar hyn o bryd. | | | |
| Argymhelliad: | | | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd; parhau i fonitro mewn AMB'au yn y dyfodol. | | | |

| 10. ADNODDAU NATURIOL | | | |
|--|--|---|---|
| Newidiadau cyd-destunol: Cyfeirir at adran 3 o'r AMB hwn. Darperir diweddariadau mewn AMB'au yn y dyfodol. | | | |
| AMCAN 10: Sicrhau bod datblygiadau ym Mro Morgannwg yn defnyddio tir yn effeithiol ac yn effeithlon a hybu defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol a rheolaeth gynaliadwy arnynt. | | | |
| Dangosydd Monitro Blynyddol | Targed Monitro | Sbardun Monitro | Perfformiad |
| Cyfeirnod. 10.1 | | | |
| CRAIDD: Faint o agregau wedi'u hennill o'r tir a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau wedi'i fynegi fel canran o'r capasiti ar y cyfan sy'n ofynnol fel a nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (Gofyniad yn MTAN). | Cynnal banc tir 10 mlynedd o gronfeydd agregau a ganiateir. | Banc tir llai na 10 mlynedd o gronfeydd agregau a ganiateir. | Mae Adroddiad Blynyddol diweddaraf SWRAWP ar gyfer 2017 yn nodi bod banc tir rhwng 26 a 29 mlynedd yn bodoli ym Mro Morgannwg yn dibynnu a ddefnyddir cyfartaledd gwerthiant 3 blynedd ynteu cyfartaledd gwerthiant 10 mlynedd. |
| Polisiau CDLI perthnasol | | | |
| Polisiau Strategol: SP9. Polisiau Rheoli Twf / Datblygu: MG22, MG23, MG25, MG26. Amcanion AoG: 8, 9. | | | |

| |
|--|
| Dadansoddiad |
| <p>Roedd y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Mwynau yn seiliedig ar gyfartaledd gwerthiant 10 mlynedd 2001-2010. Gan ddefnyddio'r un fethodoleg â'r RTS, y banc tir cyfredol yw 29 mlynedd. Fodd bynnag, yn seiliedig ar y gwerthiannau cyfartalog 3 blynedd, mae'n 26 mlynedd. Mae hyn yn dangos y bydd adferiad mewn gwerthiannau yn y tymor byr a fyddai'n awgrymu y gallai dibynnu ar y cyfartaledd gwerthiant 10 mlynedd yn unig (sy'n cwmpasu'r cyfnod dirwasgiad) arwain at dan-ddarparu. Fodd bynnag, dim ond 63% o'r dosraniad blynyddol a nodwyd ar gyfer Bro Morgannwg yn yr RTS yw'r gwerthiannau, hyd yn oed ar gyfartaledd 3 blynedd.</p> <p>Mae Bro Morgannwg hefyd wedi cynnal asesiad o'i safleoedd mwynau segur. Ystyrir bod y safle yn Chwarel Rhuthun yn ychwanegu 13 miliwn tunnell arall o agregau i'r cronfeydd agregau cyfanredol a fyddai'n ychwanegu rhwng 19 a 22 mlynedd at y banc tir.</p> <p>Awgryma'r data cyfredol nad yw Bro Morgannwg yn mynd i ddisgyn yn is na'r targed o gynnal banc tir 10 mlynedd o gronfeydd wrth gefn o agregau a ganiateir yn ystod cyfnod y cynllun.</p> |
| Monitro Perfformiad Polisi |
| <p>Dengys y data monitro fod y Cyngor wedi bodloni'r targed monitro ac nad oes achos dros ei adolygu.</p> <p>Argymhelliad: Dim angen gweithredu ar hyn o bryd; parhau i fonitro mewn AMB'au yn y dyfodol.</p> |

| Dangosydd Monitro Blynyddol | Targed Monitro | Sbardun Monitro | Perfformiad |
|---|---|--|--|
| Cyfeirnod. 10.2 | | | |
| LLEOL: Faint o ddatblygu parhaol, sy'n diffwrwytho fydd yn cael ei ganiatáu mewn ardal diogelu mwynau. | Dim datblygiadau parhaol, sy'n diffwrwytho i gael eu caniatáu mewn ardal diogelu mwynau oni bai bod hynny'n unol â Pholisi MG22. | 1 neu fwy o ddatblygiadau parhaol, sy'n diffwrwytho yn cael eu caniatáu mewn ardal diogelu mwynau yn groes i Bolisi MG22. | Ni roddodd y Cyngor unrhyw ganiatâd ar gyfer datblygiadau a fyddai'n diffwrwytho ardal diogelu mwynau yn barhaol yn groes i Bolisi MG22. |
| Polisiau CDLI perthnasol | | | |
| <p>Polisiau Strategol: SP1, SP9. Rheoli Twf/ Datblygu: MG22, MG25, MG26, MD7. Amcanion AoG: 8, 9.</p> | | | |
| Dadansoddiad | | | |
| <p>Bodlonwyd y targed monitro. Rhwng 1af Ebrill 2018 a 31ain Mawrth 2019, cymeradwyodd y Cyngor y 157 o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau a leolir o fewn ardal diogelu mwynau, nad oedd yr un yn cael ei ystyried yn groes i naill ai Polisi MG22 na CCA Diogelu Mwynau mabwysiedig y Cyngor. Roedd y ceisiadau'n ymwneud i raddau helaeth â datblygiadau ar raddfa fach sy'n gysylltiedig ag eiddo preswyl neu ffermydd ynysig presennol.</p> | | | |
| Monitro Perfformiad Polisi | | | |
| <p>Dengys y data monitro fod y Cyngor wedi bodloni'r targed monitro ac nad oes achos dros ei adolygu.</p> <p>Argymhelliad: Dim angen gweithredu ar hyn o bryd; parhau i fonitro mewn AMB'au yn y dyfodol.</p> | | | |

| Dangosydd Monitro Blynyddol | Targed Monitro | Sbardun Monitro | Perfformiad |
|--|---|--|---|
| Cyfeirnod. 10.3 | | | |
| LLEOL: Faint o ddatblygu a ganiatwyd mewn clustogfa mwynau. | Dim datblygiadau i gael eu caniatáu mewn clustogfa mwynau oni bai bod hyn yn cael ei gyfiawnhau gan Bolisi y MG23. | 1 neu fwy o ddatblygiadau wedi'u caniatáu mewn clustogfa mwynau yn groes i Bolisi MG23. | Ni chymeradwywyd unrhyw ddatblygiadau gan y Cyngor o fewn parth clustogi mwynau yn groes i Bolisi MG23. |
| Polisiau CDLI perthnasol | | | |
| Polisiau Strategol: SP1, SP9. Polisiau Rheoli Twf / Datblygu: MG22, MG23, MG25, MG26. Amcanion AoG: 8, 9. | | | |
| Dadansoddiad | | | |
| Rhwyng 1af Ebrill 2018 a 31ain Mawrth 2019, cymeradwyodd y Cyngor y 6 o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau o fewn clustogfa mwynau. Ni farnwyd bod yr un o'r ceisiadau cymeradwy yn groes i Bolisi MG23 na CCA Diogelu Mwynau mabwysiedig y Cyngor. Roedd 5 o'r ceisiadau cymeradwy yn ymwneud ag amrywiadau yn yr amodau cynllunio presennol ar ganiatâd cynllunio presennol, neu â chynigion datblygu deiliaid tai sy'n ymwneud ag anheddau presennol yn yr ardal. O ran cais 2018/00735, dim ond cyfran fach o'r safle oedd yn dod o fewn y glustogfa mwynau a allai aros heb ei ddatblygu. Yn ogystal, ni ystyriwyd bod y datblygiad arfaethedig yn ddatblygiad sensitif o fewn y diffiniadau a gynhwysir yn MTAN1 - Agregau. Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am natur y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd: | | | |
| Rhif Cais | Math | Disgrifiad o'r Cais | |
| 2018/00190/FUL | Deiliad tŷ | 1, River View, Dwyrain Aberddawan - Estyniad deulawr i ben yr annedd bresennol i ymgorffori lolfa newydd a storfa allanol ar lefel y ddaear | |
| 2018/00196/FUL | Deiliad tŷ | 1, River View, Dwyrain Aberddawan - Dymchwel wal derfyn a chroesfan cerbydau newydd i ddarparu mynediad i ardal barcio arfaethedig ar gyfer 2 gar Rhif. | |
| 2018/00735/FUL | Bach | Tir yn Nant Rhydhalog - Datblygu llety cathod newydd at ddibenion masnachol, codi adeilad newydd ar gyfer parlwr llety cathod a thacluso/trin cathod, gyda chorlannau cathod arbenigol newydd, addasu mynediad presennol i'r safle a darparu parcio ceir | |
| 2018/01049/FUL | Amrywiad ar amod | Chwarel Ewenni, St. Brides Road - Amrywiad ar amod 28 caniatâd cynllunio 2003/01554/FUL i ddileu meini prawf b), c), d) ac e) yn gysylltiedig â maint y powdwr ffrwydro, uned oedi ffrwydriad, dyfnder cortyn tanio, ac atal twll ffrwydro | |
| 2019/00040/FUL | Deiliad tŷ | Holly Barn, Dwyrain Aberddawan - Cynllunio ôl-weithredol i gadw tanc nwy yn ei leoliad presennol. Ar hyn o bryd mae'r tanc nwy i'w weld gan y cyhoedd. | |
| 2019/00192/FUL | Deiliad tŷ | Gileston Cottage, Silstwn - mae'r cais i newid y to gwastad presennol yn y cefn i do ar oledf gyda llechi naturiol i gyd-fynd â'r bwthyn presennol. | |
| Ffynhonnell: Data Cynllunio Cyngor Bro Morgannwg | | | |
| Monitro Perfformiad Polisi | | | |
| Yn wyneb yr uchod, mae'r Cyngor o'r farn bod Polisi MG 23 ynghyd â pholisiau perthnasol eraill y CDLI yn gweithio'n effeithiol ac nad oes achos dros eu hadolygu. | | | |
| Argymhelliad: | | | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd; parhau i fonitro mewn AMB'au yn y dyfodol. | | | |

| Dangosydd Monitro Blynyddol | Targed Monitro | Sbardun Monitro | Perfformiad |
|---|--|---|--|
| Cyfeirnod. 10.4 | | | |
| LLEOL: Faint o dir maes glas a gollwyd oherwydd datblygiad (ha) nad yw wedi'i ddyrannu yn y Cynllun Datblygu neu nad yw'n cwrdd â gofynion Polisiâu perthnasol Cynllun Datblygu Lleol. | Nid oes unrhyw dir maes glas yn cael ei gollu i ddatblygiad oni bai bod hynny yn unol â pholisiâu eraill yn y Cynllun neu Bolisi cenedlaethol | 1 neu fwy o ganiatadau cynllunio wedi'u rhoi ar gyfer datblygu ar dir maes glas mewn unrhyw flwyddyn benodol sy'n groes i bolisiâu yn y Cynllun neu Bolisi cenedlaethol. | Datblygwyd 37.67 ha o dir maes glas yng nghyfnod yr AMB. Roedd pob datblygiad a ganiateir yn cydymffurfio â Polisiâu Cynllunio Cenedlaethol a Lleol. |
| Polisiâu CDLI perthnasol | | | |
| Polisiâu Strategol: SP1, SP10. Polisiâu Rheoli Twf/Datblygu: MG17, MG18, MG19, MG20, MG21, MG27, MG28, MD1, MD3, MD9, MD10. Amcanion AoG: 6, 8, 9, 10, 11. | | | |
| Dadansoddiad | | | |
| Mae'r ffigur o 37.67 ha yn cynnwys nifer o safleoedd dyrannu tai CDLI fel y manylir ym mholisi MG2 a chyfleuster hyfforddi chwaraeon awyr agored mawr newydd. O ran y dyraniadau tai, roedd y rhain yn destun archwiliad annibynnol fel rhan o'r broses CDLI lle penderfynwyd bod colli tir maes glas yn dderbyniol o gofio'r ystyriaethau cynllunio a'r buddion eraill a fyddai'n deillio o'u datblygiad. Mae gan y cyfleuster hyfforddi chwaraeon (2013/00833/FUL) arwynebedd safle oddeutu 18 ha a bydd yn gwella cyfleusterau chwaraeon presennol ym Mro Morgannwg yn sylweddol. Yn wyneb yr uchod, ystyrir bod lefel y tir maes glas a gollwyd i'w ddatblygu yn ystod y cyfnod monitro yn dderbyniol o gofio'r holl ystyriaethau eraill ac amcanion cyffredinol y Cynllun. | | | |
| Monitro Perfformiad Polisi | | | |
| Argymhelliad: Dim angen gweithredu ar hyn o bryd; parhau i fonitro mewn AMB'au yn y dyfodol. | | | |

| Dangosydd Monitro Blynyddol | Targed Monitro | Sbardun Monitro | Perfformiad |
|--|--|---|---|
| Cyfeirnod. 10.5 | | | |
| LLEOL: Faint o ddatblygiad Tai (ha) newydd a ganiateir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (aiddatblygu tir llwyd ac addasiadau) wedi'i fynegi fel % o'r holl dai a ganiateir. | Isafswm o 38% o'r holl ganiatadau ar gyfer tai ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol. | 10% yn llai na'r targed o 38% ar gyfer yr holl ganiatadau ar gyfer tai ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol dros ddwy flynedd olynol. | Caniatawyd 41.03% o'r holl ddatblygiadau tai newydd ar dir llwyd o fewn y cyfnod AMB. |
| Polisiâu CDLI perthnasol | | | |
| Polisiâu Strategol: SP1, SP2, SP3, SP4. Rheoli Twf/ Datblygu: MG1, MG2, MG3, MG4, MD1, MD10, MD12. Amcanion AoG: 1, 3, 4, 8, 9, 10. | | | |
| Dadansoddiad | | | |
| Bodlonwyd y targed. Dengys data monitro'r Cyngor bod 41.03% o'r holl ddatblygiadau tai newydd wedi'u caniatáu ar dir llwyd o fewn cyfnod monitro'r AMB. Mae hyn yn cyfateb i 674 o anheddau newydd yn cael eu cymeradwyo ar dir llwyd ac yn rhagori ar y targed monitro o 3.3%. Yn ogystal, mae'n dangos bod tir ym Mro Morgannwg yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon i gefnogi cyflenwi cartrefi newydd. | | | |
| Monitro Perfformiad Polisi | | | |

Argymhelliad:

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd; parhau i fonitro mewn AMB'au yn y dyfodol.

| Dangosydd Monitro Blynyddol | Targed Monitro | Sbardun Monitro | Perfformiad | |
|---|---|---|---|--------------------|
| Cyfeirnod. 10.6 | | | | |
| LLEOL: Faint o Dir Gorau a Mwyaf Hyblyg a gollir i hapddatblygiadau. | Ni fydd unrhyw Dir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Hyblyg yn cael ei gollu i hapddatblygiad oni bai bod hynny yn unol â pholisïau yn y Cynllun a Pholisi cenedlaethol. | Unrhyw Dir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Hyblyg a gollwyd i hapddatblygiad yn groes i bolisïau yn y Cynllun. | Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau annisgwyl ar y Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas a gollwyd yn groes i'r polisïau yn y CDLI. | |
| Polisïau CDLI perthnasol | | | | |
| Polisïau Strategol: SP1, SP3, SP4. Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG1, MG2, MG4, MD1, MD10, MD12. Amcanion AoG: 1, 3, 8, 9. | | | | |
| Dadansoddiad | | | | |
| Rhwng 1af Ebrill 2018 a 31ain Mawrth 2019, cymeradwyodd y Cyngor 17 cais cynllunio ar gyfer hap-ddatblygiadau a arweiniodd at gollu 9.2 Ha o dir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas. Nodir natur y cynigion hyn yn y tabl isod, a barnwyd eu bod yn unol â pholisïau'r CDLI. | | | | |
| No. | Rhif Cais | Cyfeiriad y Safle | Cais | Tir a gollwyd (Ha) |
| 1 | 2018/00582/FUL | 25, Tair Onen, ger Y Bont-faen | Ymestyn cwrtil a newid defnydd i'r ardd. Ehangu'r dramwyfa o fewn eiddo gan ddefnyddio'r fynedfa bresennol i gynnwys cerbyd arall. Codi ffens atal stoc, plannu samplau gwrych ffawydd, cloddio ffos a'i pharatoi ar gyfer wal derfyn carreg i gyd-fynd â'r wal derfyn bresennol. | 0.028 |
| 2 | 2018/00100/RES | Bryn Farm, Pont Sarn Lane, Clawddcoch | Cais am Faterion Neilltuedig ar gyfer annedd gweithwyr fferm yn Bryn Farm, Pont Sarn Lane, Clawddcoch (2017/00339/OUT) | 0.1 |
| 3 | 2018/00729/FUL | Canolfan Ragoriaeth WRU, Parc Castell Hensol, Hensol | Estyniad i'r cyfleusterau hyfforddi presennol | 0.0572 |
| 4 | 2018/00330/FUL | Tir yn The Stables, Redway Road, Tresimwn | Adnewyddu caniatâd cynllunio ar gyfer defnyddio tir i leoli carafân (gyda charafân deithiol) at ddibenion preswyl i un llain Sipsiwn ynghyd ag arwyneb caled ac ystafell olchi/ ystafell ddydd ychwanegol | 0.1 |

| | | | | |
|----------|----------------|---|--|--------|
| 5 | 2018/00042/FUL | Tir ar bwys Aberthin Lane, Aberthin, Y Bont-faen | Adleoli fferm yn cynnwys codi dau adeilad da byw a storfeydd tail | 0.49 |
| 6 | 2018/00041/FUL | Tir ar bwys Aberthin Lane, Aberthin, Y Bont-faen | Codi Annedd Gweithiwr Menter Wledig | 0.15 |
| 7 | 2018/00735/FUL | Tir yn Nant Rhydhalog, Cowbridge Road, Talygarn | Datblygu llety cathod newydd at ddibenion masnachol, codi adeilad newydd ar gyfer parlwr llety cathod a thacluso/trin cathod, gyda chorlannau cathod arbenigol newydd, addasu mynediad presennol i'r safle a darparu parcio ceir | 0.5 |
| 8 | 2018/01006/FUL | Tir oddi ar Well Lane, Sain Nicolas | Adeiladu Gorsaf Bwmpio Dŵr Aflan Math 2, Carthffos Dŵr Aflan/ Draen Ochrol, Prif Bibell Codi Dŵr Aflan a Thyllau archwilio Dŵr Aflan | 0.01 |
| 9 | 2018/01037/FUL | Badgers Hollow, Graig Penllyn | Ymestyn adeiladau allanol amaethyddol presennol | 0.001 |
| 10 | 2018/01286/FUL | Cae parcel OS 0946, Newton House Farm, Newton | Bloc sefydlog gyda ffedog goncrit o'i flaen | 0.009 |
| 11 | 2018/00773/FUL | Tir i'r gorllewin o blotiau 38 i 53, The Grange, cefn plotiau 38 - 53 Burdons Close, Gwenfô | Gweithrediadau peirianeg sy'n cynnwys draen tir dŵr wyneb newydd a gwaith cysylltiedig | 0.0535 |
| 12 | 2018/00595/FUL | 24, Tair Onen, Y Bont-faen | Newid defnydd o iard storio Cyfoeth Naturiol Cymru i ardd a darparu garej sengl | 0.032 |
| 13 | 2018/00191/FUL | 37, Tair Onen, Saint Hilari | Ymestyn cwrtil preswyl | 0.028 |
| 14 | 2017/00967/FUL | Maes y Ward Farm, Tresimwn | Adeiladu trac mynediad newydd | 0.09 |
| 15 | 2013/00833/FUL | Gyferbyn â Hensol Villas, Hensol | Creu caeau hyfforddi chwaraeon, codi cyfleusterau cynnal a chadw, parcio ceir cysylltiedig a ffordd fewnol | 7.2 |
| 16 | 2018/00485/FUL | Rhan o gae, i'r dwyrain o Well Lane / I'r gogledd o Track, Tinkinswood | Adeiladu Gorsaf Bwmpio Dŵr Aflan Math 2, Carthffos Dŵr Aflan/ Draen Ochrol, Prif Bibell Codi Dŵr Aflan a Thyllau archwilio Dŵr Aflan | 0.015 |
| 17 | 2016/00080/FUL | Llwynhelig, Y Bont-faen | Codi adeilad amaethyddol ar gyfer cynhyrchu wyau buarth, ynghyd â biniau bwyd anifeiliaid cysylltiedig, arwyneb solet a ffordd fynediad | 0.4 |
| Cyfanswm | | | | 9.2637 |

Fynhonnell: Data Cynllunio Cyngor Bro Morgannwg

Monitro Perfformiad Polisi

